

newID

DIGIDOL AR GYFER Y TRYDYDD SECTOR | DIGITAL FOR THE THIRD SECTOR

10 CAM I FEISTROLI YMGYSYLLTIAD DIGIDOL

GWYBODAETH HANFODOL I'CH HELPU I GYRRAEDD MWY O BOBL AR LEIN


Darparir gan::



ewmpas

promo
cymru

Ariennir gan:



Cefnogir gan:



BETH YW'R MANTEISION?

Mae'r cydweithrediad yma yn caniatáu rhannu arfer dda ym maes gwella ymgysylltiad digidol mewn ffordd eglur ac sydd wedi teilwra i sefydliadau yn y drydedd sector. Mae'r canllaw yn cynnwys rhestr termau defnyddiol.

Mae'r wybodaeth wedi anelu at ddechreuwr neu rhai gyda phrofiad ar lefel canolig o farchnata digidol. Mae hefyd yn addas ar gyfer rhai sydd eisiau gweithredu'r canllawiau eu hunain. Trwy ddilyn y canllawiau yma, bydd sefydliadau yn **barod i gyrraedd eu potensial tyfiant digidol** wrth osgoi camgymeriadau amlwg fel rhan o'r broses.

Mae'r adnodd yn ddelfrydol ar gyfer sefydliadau sy'n gweithio ar gyllid marchnata cyfyngedig, neu heb gyllid o gwbl. Mae **rhestr wirio** ar ddiwedd pob adran. Rydym yn annog darllenwyr i wyllo'r fideos cefnogol lle posib, maent yn cynnig eglurhad enghreifftiau gweledol ar sut i weithredu'r canllawiau.

CYNNWYS

CAM 01	SYLFEINI GWELLA YMGYSYLLTIAD DIGIDOL	PAGE 03
CAM 02	BRANDIO.....	PAGE 06
CAM 03	GWEFAN	PAGE 11
CAM 04	GWELEDEDD AR LEIN (SEO)	PAGE 18
CAM 05	CYFRYNGAU CYMDEITHASOL	PAGE 23
CAM 06	FIDEO	PAGE 30
CAM 07	EBOST	PAGE 35
CAM 08	HYSBYSEBU AR LEIN	PAGE 40
CAM 09	MESUR PERFFORMIAD.....	PAGE 46
CAM 10	PECYN CYMORTH YMGYSYLLTU DIGIDOL AM DDIM.....	PAGE 51
	RHESTR TERMAU	PAGE 54



newID

CAM **01**

SYLFEINI YMGYSYLLTIAD DIGIDOL

SYLFEINI YMGYSYLLTIAD DIGIDOL


Gadewch i ni ddechrau trwy ddweud, pam mae'n dod i wella ymgysylltiad digidol nid un dull yn unig fydd yn arwain at gyrraedd eich targedau fel sefydliad. Mae gwella ymgysylltiad digidol angen strategaeth gref, gyda chynlluniau a gweithred gyson i fynd â'ch cynulleidfa ar daith gyda'ch brand.

Gall cymharu gwella ymgysylltiad digidol i ymarfer corff mewn gym, mae angen ymarfer pob elfen (neu gyhyrau) o'r corff (eich sefydliad) er mwyn gweld y canlyniadau gorau. Os oes rhai elfennau yn wannach na'i gilydd neu ar goll, ni fyddwch yn gryf ymhob man. Mae hefyd angen gweithio ar yr elfennau yma yn gyson er mwyn gweld canlyniadau cadarnhaol dros amser.

TAITH Y CWSMER

Defnyddiwyd 'taith y cwsmer' yn aml fel cysyniad marchnata sydd hefyd yn berthnasol i ymgysylltiad cymunedol. Mae'n helpu sefydliadau i gynllunio strategaeth i ymgysylltu â phobl gyda phwrpas clir ar gyfer canlyniadau cadarnhaol. Y nod ydi adnabod anghenion a chynllunio strategaeth i gyrraedd eich cynulleidfa yn ogystal â'u hysbrydoli i weithredu a'u troi yn gynrychiolwyr eich achos.

Fel enghraifft, ystyriwch daith cwsmer eich hun gyda Newid:



PWYSIGRWYDD YMGYSYLLTU DIGIDOL YN Y DRYDEDD SECTOR

Yn ystod y canllawiau yma, rydym yn cyfnewid rhwng 'ymgysylltu' a 'marchnata' fel geiriau gyda'r un ystyr. Dyw grwpiau yn y drydedd sector ddim pob tro yn meddwl bod marchnata yn berthnasol iddynt, ond mae ymgysylltu cymunedol digidol yn bendant yn rhan bwysig o'r gwaith. **Meddyliwch am farchnata fel ffordd o estyn llaw i'ch cymuned ac ysbrydoli eraill i weithredu** mewn ffyrdd sydd yn cefnogi eich targedau fel sefydliad.

Er enghraifft:

01 Codi ymwybyddiaeth o'ch achos

02 Sicrhau fod pobl yn ymwybodol o'r hyn rydych yn gwneud i gefnogi'r achos

03 Sicrhau fod y cyhoedd yn gwybod sut i fod yn rhan o'r achos

Mae marchnata digidol yn cynnig cyfle i grwpiau yn y drydedd sector i gyrraedd cynulleidfa eangach a mwy amrywiol tu hwnt i'w rhwydweithiau presennol. **Mae hwn yn fantais bwysig pan ceisio denu cefnogaeth a buddsoddiad ariannol.** Mae'n cynnig cyfleoedd i sefydliadau i ymgysylltu â chynulleidfa llawer mwy a phobl ni fyddai wedi gallu cyrraedd o'r blaen.

Mae cael presenoldeb digidol cryf yn helpu sefydlu enw da wrth gryfhau'r effaith cadarnhaol mae eich gwaith yn cael ar y gymuned. Mae adborth fel **adolygiadau, astudiaethau achos a straeon o lwyddiant** ar lein yn ffyrdd arbennig o ennyn parch ac ymddiriedaeth yn eich gwaith. Mae pobl yn fwy tebygol o eisiau bod yn rhan o'r broses ac i gefnogi sefydliad sy'n dangos effaith eu gwaith yn glir, yng ngeiriau'r bobl sydd wedi elwa yn benodol.

Defnyddiwch **straeon diddorol** o aelodau'r gymuned rydych wedi cefnogi. Mae hyn yn bwerau yn arbennig pan mae neges emosiynol ac ysbrydoledig yn y stori. Mae platfformau digidol fel gwefannau, y cyfryngau cymdeithasol a chylchlythyrau yn caniatáu i sefydliadau yn y drydedd sector cyfathrebu'r straeon yma wrth gysylltu â chynulleidfa eangach.

'DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL' (AI) MEWN MARCHNATA

Fel esblygiad y ffôn symudo a'r we cyn hwnna, mae 'Deallusrwydd Artiffisial' (AI) yn **arf galluogi**. Mae nifer o arfau **AI** yn cynnig gwasanaeth cynorthwyo personol i gefnogi eich sefydliad. Meddyliwch am **AI** fel aelod ychwanegol o staff sy'n gallu gwneud tasgau cyffredin yn hawdd. Er enghraifft mae arfau fel ChatGBT yn gallu cynnig rhestr o syniadau i godi arian, neu hyd yn oed creu delweddau i hyrwyddo digwyddiadau.

Mae gwasanaethau fel hyn yn effeithiol wrth helpu sefydliadau i weithio yn fwy effeithlon ar ran eu gwaith marchnata digidol. Er hyn, mae'n bwysig sylwi bod **pob arf AI yn gweithio orau ynghyd ag aelod o staff da ac nid yn eu lle**. Maent yn gallu cyflymu rhai prosesau ond nad ydynt yn deall eich strwythur eich sefydliad yn iawn nag eich cynulleidfa unigryw. Mae defnyddio elfennau ac iaith personol yn eich gwaith marchnata digidol yn sicrhau fod eich allbwn digidol yn ffitio gwerthoedd eich brand ac ymgysylltu yn well gyda'ch cynulleidfa. Yn y pen draw mae hwn yn llawer mwy effeithiol wrth gyrraedd eich targedau.

Dylech fod yn agored gyda'ch cynulleidfa am unrhyw ddefnydd o AI ym **mholisi eich sefydliad**. Mae hwn yn adeiladu ymddiriedaeth ac yn gysur o bobl yn fewnol ac yn allanol, bod yr arfau yna i gryfhau'r gwaith mae pobl yn gwneud yn hytrach na chasglu gwybodaeth personol heb ganiatâd.

Ym mhob adran o'r canllaw yma, byddwn yn awgrymu arf AI perthnasol i'ch helpu i ymgymryd â thasg marchnata ddigidol. Noder fod y maes yma yn datblygu yn gyflym felly **mae'r arfau sy'n cael eu hawgrymu yma yn gywir ac yn bwrpasol tra bod y canllaw yma yn cael ei ysgrifennu yn 2025.**

newID

CAM 02

BRANDIO

BRANDIO


Cyn dechrau ar ein canllawiau marchnata sy'n anelu at hyrwyddo eich brand, mae'n bwysig yn gyntaf eich bod yn hyderus gyda hunaniaeth eich brand. **Mae hunaniaeth brand cryf gyda phwrpas clir, apêl weledol a chyfathrebu effeithiol yn eich helpu i gyrraedd eich targedau.**

Mae ymgysylltu gyda'ch cymuned heb hunaniaeth brand cryf yn aneffeithiol ar y cyfan oherwydd mae'n atal eich gallu i ysbrydoli eraill i fod yn rhan o'r broses. Mae cael brand cryf a chyson yn sicrhau eich bod yn adnabyddus, dibynadwy ac wrth reswm yn fwy tebygol o ysbrydoli eraill y gymryd rhan.

MWY NA DIM OND LOGO

Mae rhaid pwysleisio yma, wrth gyfeirio at eich brand, rydym yn sôn am gymaint mwy na dim ond eich logo. Ydi, mae'r logo yn rhan bwysig o hunaniaeth y brand ond dim ond un elfen ohoni. Pob tro mae rhywun mewn cyswllt gyda'ch cwmni mae'n cael effaith ar eu teimladau am eich brand. Mae cynnig **ymgysylltiad brand** cadarnhaol pob tro yn rhan bwysig o adeiladu enw da.

Defnyddiwch y ddelwedd er mwyn adnabod cyfleoedd i wella ar gyfer pob elfen ymgysylltu mae gan berson gyda'ch brand.



YSTYR BRAND

BRAND (Enw)

Brand ydy teimlad rhywun am gynnyrch, gwasanaeth neu sefydliad

Marty Neumeier

BRANDIO (Berf)

Y mecanwaith ar ddylanwadu ar deimladau rhywun am gynnyrch, gwasanaeth neu sefydliad

Sean Tambagahan

HUNANIAETH BRAND

Dyma 6 philer i adnabod fel rhan o'ch proses deall hunaniaeth eich brand:

01 PWRPAS 	02 GWELEDIGAETH 	03 CENHADAETH 	04 GWERTHOEDD 	05 EIN LLE YN Y MAES 	06 CYNULLEIDFA 
PAM? ...rydym yn bodoli? E.e. i helpu teuluoedd ifanc i reoli eu harian yn well.	BETH? ...rydym eisiau cyflawni? E.e. Rhyddid ariannol i deuluoedd.	SUT? ...ydym am gyflawni ein gweledigaeth? E.e. Gyda ffocws ar fod y prif adnodd ar gyfer cymorth rheoli arian.	BETH? ... ydy'ch gwerthoedd a sut ydych yn ymddwyn? E.e. parch, ymddiriedaeth ac atebolrwydd.	SUT? ... ydym yn wahanol i'n gystadleuwyr e.e. cymorth ariannol lleol gallwch ymddiried ynddi.	PWY? ...ydym yn anelu at gyrraedd e.e. teuluoedd ifanc ar incwm isel yn ardal Pontypandy.

Mae deall a gallu cyfathrebu eich hunaniaeth brand yn eich gwneud yn llawer mwy effeithiol wrth ddylanwadu meddylfryd pobl am eich sefydliad. Mae hunaniaeth gref yn rhoi pwrpas a chyfeiriad clir i'ch brand. Mae'n haws felly cyfathrebu ac ymgysylltu â phobl, boed yn aelodau o'ch cymuned yn aelodau neu gefnogwyr.

Ymgysylltu â defnyddwyr presennol y gwasanaeth, aelodau a chefnogwyr i asesu eu teimladau ar beth yw prif bwrpas, gweledigaeth a gwerthoedd eich sefydliad. Ni ddylai brandio adlewyrchu barn unigolyn, felly mae casglu barn o'r tu fewn a'r tu allan er mwyn adnabod pileri eich brand yn rhan bwysig o sut fyddwch yn cael eich gweld yn y gymuned.

Mae gennych chi frand pe baech yn ceisio cael neu beidio. Yr unig ddewis sydd gennych ydi sut ydych chi eisiau siapio a rheoli'r brand yna.

Ingrid Srinath

DYLUNIO BRAND

Mae dyluniad brand cryf yn hanfodol ar gyfer unrhyw sefydliad i'ch helpu i sefyll allan, gwnewch argraff dda o'r cychwyn a magwch hyder eich cynulleidfa. Yn bwysig iawn i'r drydedd sector, **mae dyluniad brand da yn gallu helpu pobl i ymgysylltu gyda'ch brand.** Mae lliwiau, ffont a delweddau i gyd yn cyfrannu at sut mae pobl yn teimlo am eich brand e.e. ymddiriedaeth, diogelwch, perthyn neu gyffro.


Dylai logo fod yn syml, unigryw ac addasadwy i sawl gwahanol fformat fel y we, cyfryngau print a'r cyfryngau cymdeithasol. Dylech osgoi dyluniadau cymhleth sydd yn rhwystro pobl rhag gallu adnabod eich brand yn sydyn.

Sefydlwch **liwiau** eich brand a defnyddiwch rhai sydd yn gyd fynd gyda'i gilydd. Dylech hefyd sicrhau fod **teipograffeg**

yn cael ei ystyried. Mae'n bwysig fod eich dewisiadau ffont yn adlewyrchu personoliaeth eich brand e.e. cyfoes, clasurol, hwyl neu broffesiynol.

Sicrhewch fod eich ffont ar gael ar y we trwy ddewis un o **Google font**. Dylai arddull eich delweddau a fideos hefyd cyd fynd gyda hunaniaeth eich brand.

Unwaith rydych wedi cadarnhau manylion dylunio eich brand, mae'n bwysig eu defnyddio ar draws eich cynnyrch marchnata er mwyn **cadw cysondeb y brand**. Mae hwn nid yn unig yn edrych yn fwy proffesiynol, ond hefyd yn helpu pobl i adnabod ac ymgysylltu gyda'r brand. Er enghraifft, os ydych graffeg cyfryngau cymdeithasol yn defnyddio ffont a lliwiau gwahanol pob tro mae'n anodd i'ch cynulleidfa eich adnabod ac felly yn llai tebygol o ymgysylltu gyda'ch brand.




ARF AI AR GYFER DYLUNIO LOGO: Looka

Mae **Looka** yn arf arbennig i greu dyluniadau. Yr holl sydd angen i wneud ydy rhoi gwybodaeth berthnasol fel enw'r cwmni, eich maes, ambell syniad o ddewisiadau arddull a steil gyda disgrifiad o'r logo ac mae'n cynhyrchu sawl dewis mewn eiliadau.

Gallwch ddewis logo o'ch dewis i wneud newidiadau pellach tan eich bod yn hapus i gymeradwyo a lawr lwytho. Maent hefyd yn cynnig manylion eich dewisiadau lliwiau a ffont er enghraifft er mwyn eich bod yn barod i gadw **cysondeb brand** ar draws eich ddeunydd marchnata.

Mae Looka am ddim wrth greu ac arbrofi gyda gwahanol syniadau, ond bydd angen taliad os am lawr lwytho asedau i ddefnyddio.



RHESTR WIRIO BRANDIO

- ☐ ADOLYGU EICH MANNAU YMGYSYLLTU ER MWYN ADNABOD GWELLIANNAU.
- ☐ YMGYSYLLTU GYDA'R GYMUNED I GASGLU BARN AR SUT I LEOLI EICH HUNANIAETH BRAND.
- ☐ ADNABOD EICH PWRPAS - PAM RYDYCH YN BODOLI?
- ☐ ADNABOD EICH GWELEDIGAETH - BETH RYDYCH EISIAU CYFLAWNI?
- ☐ ADNABOD EICH CENHADAETH - SUT YDYCH YN BWRIADU GWIREDDU EITH GWELEDIGAETH?
- ☐ ADNABOD EICH GWERTHOEDD - BETH YDY'CH PWRPAS A SUT YDYCH YN YMDDWYN?
- ☐ ADNABOD EICH LLE YN Y MAES - SUT YDYCH YN WAHANOL I'CH CYSTADLEUWYR?
- ☐ ADNABOD EICH CYNULLEIDFA - PWY YDYCH YN CEISIO CYRRAEDD A DYLANWADU?
- ☐ DYLUNIO LOGO
- ☐ CREU CANLLAW BRAND SYDD YN CYNNWYS GWYBODAETH AR EICH LLIWIAU A'CH TEIPOGRAFFEG.



newID

CAM **03**

GWEFAN

GWEFAN

Mae'n bosib dadlau taw'r wefan ydy'r arf bwysicach o fewn eich gweithrediad digidol. **Bydd buddsoddwyr a noddwyr yn edrych ar eich gwefan i gadarnhau eich hygredd fel sefydliad dibynadwy yn fwy na'ch tudalennau cyfryngau cymdeithasol.** Mae presenoldeb effeithiol ar y we hefyd yn eich helpu i ymgysylltu â'ch cymuned ac ysbrydoli gweithgarwch eich cefnogwyr, dilynwyr a noddwyr.

DYLAI GWEFAN TYFU AC ESBLYGU O HYD

Mae eich gwefan yn llawer mwy tebygol o'ch helpu i gyrraedd eich targedau os ydy'n weithredol ac yn gyfredol yn hytrach na bod yn hen ffasiwn ac yn segur. Dylech feddwl bod eich gwefan yn tyfu ac yn esblygu o hyd, **lansio gwefan ydy cychwyn y daith, nid y diwedd.**

Yn y pendraw, mae eich gwefan ar gyfer defnyddwyr allan yn y byd go iawn, nid chi. Gwna yn siŵr i **ymgysylltu gyda'ch cymuned** i gasglu barn ac adborth ar sut hoffai bobl eu defnyddio a sut dylai edrych. Trwy wneud hwn mae eich gwefan yn gwella yn naturiol ac yn haws i'w defnyddio i'r bobl sydd angen fwyaf.

SEILIAU GWEFAN EFFEITHIOL

Dyma 4 sail hanfodol ar gyfer gwefan effeithiol:


01 HAWDD I DDEFNYDDIO

02 CYNNEWYS

03 YMDDIRIEDAETH A DWYN PERSWÂD

04 RHYNGWEITHIO

Yma byddwn yn archwilio'r 4 sail hanfodol yma mewn manylder a chynnig syniadau i'w ystyried ar gyfer ehangu presenoldeb eich gwefan.



HAWDD I DDEFNYDDIO

Dylai fod yn hawdd i ddefnyddwyr mynd o un man i'r llall ar y wefan, **mae dewislen glir ar y wefan yn hanfodol**. Mae'n syniad da i roi'r ddewislen yma ar y dudalen gartref yn barhaol fel bod dim angen i'r defnyddwyr mynd yn ôl i ben y dudalen i'w cyrraedd eto.

Mae gan bobl cyfnod canolbwyntio isel wrth edrych ar wefannau, felly mae angen dangos gwybodaeth berthnasol a defnyddiol mor gyflym â phosib. Dylech gynnwys dewislen gryno sydd yn arwain y defnyddiwr ar lwybr clir ac osgoi tudalennau ychwanegol ar hyd y ffordd os nad oes angen. Eto, mae cyfathrebu gyda'ch cymuned yn gallu eich helpu i siapia eich gwefan.

Mae **blwch chwilio** yn ddefnyddiol i helpu pobl i ddarganfod gwybodaeth benodol yn gyflym, ystyriwch **hidlenni** ar rannau perthnasol o'ch gwefan i helpu defnyddwyr i ddarganfod y wybodaeth gywir yn gyflymach. Er enghraifft, tudalen blogio i ddefnyddwyr i hidlo cynnwys fel diweddariadau cymunedol, digwyddiadau a newyddion cyffredinol.

Dylech sicrhau hefyd fod y wefan wedi adeiladu mewn ffordd sydd yn **ymatebol**, h.y. mae angen i'r delweddau a'r cynnwys ymateb i'r math o ddyfais neu maent sgrin mae'r defnyddwyr yn defnyddio. Mae hyn yn hanfodol gyda'r nifer o bobl sydd yn edrych ar wefannau o'u ffonau symudol yn cynyddu o hyd.

CYNNWYS

Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwefannau yn penderfynu os am aros neu adael o fewn yr eiliadau cyntaf, felly mae cael tudalen cartref sy'n creu argraff gadarnhaol yn syth yn hanfodol ar gyfer cadw pobl ar eich gwefan.

Un ffordd o gyflawni hwn ydi trwy ddefnyddio **iaith eglur** i ddangos eich **beth? Sut? A Pham? (Gweler adran 2)** ar ben y dudalen fel bod pobl yn gallu eu darllen cyn penderfynu os am aros neu beidio. Atgyfnerthwch hwn gyda delwedd neu fideo trawiadol sydd yn cynrychioli eich sefydliad. Yn ddelfrydol, defnyddiwch y bobl yn eich cymuned sydd yn elwa o'ch gwasanaethau fel bod pobl eraill yn gallu ymgysylltu yn well.

Dylech osgoi gwneud eich logo yn enfawr oherwydd nid yw'n ychwanegu at brofiad y defnyddiwr. Maen nhw eisiau gwybod eu bod yn y lle cywir ac i ddeall yn gyflym beth allwch chi gynnig iddynt, nid sut mae eich logo yn edrych.

Cadwch eich copi yn gryno fel bod dim angen i'r defnyddiwr sgrolio gormod, yn enwedig ar gyfer rhai sy'n defnyddio ffôn. Er mwyn creu argraff at fuddsoddwyr, cefnogwyr a rhan deiliaid eraill **mae'n well defnyddio delweddau a fideos gwreiddiol** yn hytrach na rhai cyffredinol o'r we. Mae'n bwysig cael caniatâd unrhyw un sydd yn weledol ar eich gwefan.

Mae **blog** yn ffordd wych o hysbysu'r gymuned o'r hyn sy'n digwydd gyda'ch sefydliad. Gallwch ddefnyddio blog i ddiolch i

bobl am eu hymdrechion, i hyrwyddo digwyddiadau, i gyflwyno aelodau newydd o'r tîm neu i rannu arfer dda. Maent hefyd yn effeithiol ar ran gwella eich gwelededd ar blatfformau chwilio ar lein (mwy yn adran 4) yn ogystal â bod yn ddeunydd perffaith i rannu ar y cyfryngau cymdeithasol.

Ystyriwch adran **CWESTIYNAU CYFFREDIN**. Nid yn unig ydi dangos cwestiynau cyffredin yn fuddiol i'r defnyddiwr, mae hefyd yn gallu arbed amser eich staff rhag gorfod ateb yr un cwestiynau tro ar ôl tro dros ffôn neu e-bost. Sicrhewch fod y **ffont** yn gyson trwy eich gwefan a bod u lliwiau ddim yn rhwysr rhag gallu darllen y cynnwys. Fel rheol mae geiriau tywyll ar gefndir golau yn gweithio orau.

Os ydych eisiau gwefan dwyieithog, yr arfer orau ydy caniatáu defnyddwyr i allu cyfnewid rhwng ieithoedd ar yr un dudalen heb orfod chwilio am y ffordd yn ôl. Yn anffodus, mae nifer o wefannau dwyieithog yn mynd â'r defnyddiwr yn ôl i'r dudalen gartref yn yr iaith flaenorol yn hytrach na'r dudalen roeddent yn darllen. Mae eraill yn cynnig Cymraeg a Saesneg wrth ochr ei gilydd sydd yn gallu achosi mwy o sgrolio a thebygolrwydd uwch o rywun yn gadael.

Yn olaf, mae rhannu **podlediad** ar eich gwefan yn ffordd wych o ymgysylltu gyda'r gymuned a rhoi llais iddynt i rannu eu barn a'u straeon. **Mae safon sain dda yn hanfodol** er mwyn cynnig profiad pleserus i'r gwrandawyr felly ystyriwch fuddsoddi mewn offer addas er mwyn gwneud hwn yn iawn.

YMDDIRIEDAETH A DWYN PERSWÂD

Mae cyflwyno gwybodaeth ddefnyddiol ar eich gwefan yn hanfodol, ond mae cael defnyddwyr i weithredu mewn ffordd sydd yn cefnogi eich sefydliad fel cysylltu dros e-bost, ffôn, gwneud rhodd neu brynu rhywbeth yn her arall.

Dyma rhai awgrymiadau ar gyfer ysbrydoli mwy o bobl i weithredu ar eich gwefan:

Mae cael datganiad yn dangos eich **pwrpas** (gweler adran 2) ar eich tudalen cartref yn helpu crynhoi'r hyn rydych yn eu gwneud a beth sy'n eich gwneud yn wahanol e.e. datblygu talentau ifanc ar gyfer dyfodol disglair. Mae denu pobl gyda'r math yma o iaith yn cynyddu'r nifer o bobl sy'n debygol o aros ar eich gwefan.

Rhywbeth hanfodol arall i gael ar eich gwefan ydy **tystysgrif SSL**, sy'n meddwl ni fydd defnyddwyr yn derbyn 'rhybudd - nid yw'r wefan yma yn ddiogel' wrth gyrraedd. Mae **tystysgrifau SSL** fel arfer yn cael eu trefnu gyda'ch darparwr wefan felly gwnewch yn siŵr fod hwn yn rhan o'ch cytundeb. Mae dangos polisi preifatrwydd ar gyfer casglu data hefyd yn hanfodol ar gyfer cydweithrediad **GDPR**.

Os ydych wedi cyrraedd rhestr fer neu wedi **ennill gwobr**, gwnewch yn siŵr o ddangos hwn ar y wefan. Mae pawb ar y we felly mae gallu sefyll allan gydag unrhyw gymwysterau swyddogol yn help mawr i bobl cael dod i nabod ac ymddiried yn eich brand.

Mae dangos eich **sgôr adolygiadau** o blatfformau fel Google Business Profile yn gallu atgyfnerthu eich enw da e.e. '4.9* o 57 adolygiad ar Google'. Mae rhyddhau adolygiadau cadarnhaol a dyfyniadau wrth gefnogwyr trwy'r wefan hefyd yn helpu cadarnhau eich datganiadau. Mae pobl yn dueddol o fod yn amheus am frandiau newydd ar lein felly mae atgyfnerthu eich dilysrwydd a dangos eich bod yn sefydliad credadwy yn y gymuned yn helpu dod dros y rhwystr yma.

Mae adran **astudiaeth achos** neu straeon o lwyddiant yn gallu helpu ymgysylltu gyda'r bobl sydd angen cefnogaeth debyg neu yn profi problemau tebyg.

Wrth ddefnyddio **platfform codi arian digidol** fel JustGiving, Givey, GoFundMe neu Enthuse, gwnewch yn siŵr bod eu logo yn weladwy ar draws eich gwefan fel bod pobl yn gallu ymddiried yn y broses o gynnig rhoddion at eich achos.

Mae defnyddio **botymau galw clir** (Calls to action) yn hanfodol er mwyn arwain pobl mewn cyfeiriad penodol fel cofrestru diddordeb i wirfoddoli neu i gynnig rhodd ariannol. Mae defnyddio lliw gwahanol ar y botymau yma wedi ei brofi i ddenu sylw a chynyddu'r nifer o bobl sy'n clicio arnynt.

Rhywbeth arall sy'n allweddol mewn codi'r nifer o bobl sy'n gweithredu ar eich gwefan ydy'r math o iaith sy'n cael ei ddefnyddio ar y botymau galw. Er enghraifft, bydd opsiwn 3 isod yn fwy llwyddiannus yn perswadio rhodd ariannol oherwydd mae'n dangos canlyniad y rhodd.

01

RHOWCH £2

02

RHOWCH I SEFYDLIAD CYMUNEDOL PONTYPANDY

03

BYDD POB £2 YN PRYNU I PRYD O FWYD I'R DIGARTREF

Neu well fyth, defnyddiwch yr enghraifft isod i annog rhoddion mwy:

£2



BYDD £2 YN PRYNU PRYD O FWYD I UNIGOLYN

£5



BYDD £5 YN PRYNU PRYD O FWYD I DEULU CYFAN

£10




BYDD £10 YN PRYNU SACH GYSGU

Mae'r uchod yn dacteg seicolegol bwerus i annog pobl i ddewis yr opsiwn yn y canol, yn enwedig os oes gap mawr rhwng yr opsiynau canol ac uwch na rhwng y canol a'r isaf.

YMDDIRIEDAETH A DWYN PERSWÂD

Wrth ddefnyddio botwm 'rhoi' ystyriwch ddefnyddio **'bocs pop'** i gael cyfraniadau yn hytrach na gorfodi'r defnyddiwr i glicio ar dudalen ychwanegol a sgrolio mwy. Ar y rhan yma o'r daith ar y wefan mae cyrraedd y gôl mor gyflym â phosib yn hanfodol. Mae unrhyw rwystr yma yn siŵr o leihau'r nifer o bobl sy'n cyrraedd y diwedd.

Yn olaf, **gwnewch yn siŵr bod cynnwys eich gwefan wedi diweddaru**. Mae cynnwys segur yn aml yn achosi defnyddwyr i golli ffydd yn y wefan a'r sefydliad, bydd rhai yn cwestiynu os ydy'r sefydliad yn dal i weithredu. E.e. os nad ydy blog neu erthygl wedi diweddaru ers blwyddyn. Mae'n arfer dda i ddiweddaru blog newyddion pob chwarter o leiaf.



RHYNGWEITHIO

Y pedwerydd a'r sail olaf i wefan llwyddiannus ydi **rhyngweithio**. Dyma rhai awgrymiadau i ystyried er mwyn gwneud eich gwefan yn fwy rhyngweithiol i'ch defnyddwyr.

Mae **Tudalennau sy'n llwytho yn gyflym** yn bwysig wrth sicrhau profiad da i'r defnyddwyr. Y Ffordd orau o gyflawni hwn ydi trwy uwch lwytho ffeiliau maint addas i'r we (yn ddelfrydol o gwmpas 500KB) wrth ddefnyddio delweddau, fideos a dogfennau i'w lawr lwytho.

Mae **adran cylchlythyr** yn werthfawr i ddefnyddwyr sydd eisiau diweddariadau ar newyddion a chynigion o'ch sefydliad heb orfod pori eich gwefan. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn agor e-byst sawl gwaith mewn diwrnod ond yn annhebygol o edrych ar eich gwefan cymaint.

Wrth ddefnyddio **bocs pop** yn gofyn i ddefnyddwyr tanysgrifio i'ch cylchlythyr neu wneud rhodd, gosodwch y bocs i godi ar ôl amser penodol ar y wefan a dim fel y peth cyntaf mae rhywun yn gweld. Mae defnyddwyr angen amser i brosesu'r cynnwys a sicrhau eu bod yn y lle iawn heb ystyried unrhyw gyfraniadau.

Mae **ffurflen gyswllt** yn syniad da, heb rain mae'r defnyddiwr angen copio eich cyfeiriad e-bost, mewngofnodi i'w e-bost nhw eu hunain ac yna creu e-bost newydd. Mae'n arfer dda i ddangos eich polisi preifatrwydd yma hefyd.

Gosodwch eich rhif ffôn fel **'clicio i alw'** wrth ymddangos fel bod defnyddwyr ffôn symudol yn gallu tapio'r rhif a ffonio yn syth. Hefyd, os oes gan eich sefydliad lleoliad fel swyddfa, siop neu ganolfan ayb mae **map rhyngweithiol** yn ffordd dda o gynnig cymorth gydag apiau fel Google Maps er enghraifft.

Mae nifer yn dewis rhoi blas o'u tudalennau cyfryngau cymdeithasol fel **'instagram feed'**. Er yn apelio yn weledol, maent yn gallu arwain pobl i ffwrdd o'ch gwefan ac o bosib ni fydd yn dod yn ôl. Yn ddelfrydol dylai tudalennau cyfryngau cymdeithasol gyrru pobl at eich gwefan ac nid fel arall. Yn hytrach, rhwch logos eich sianeli cyfryngau cymdeithasol ond gwnewch yn siŵr eu bod yn agor ar dudalen newydd fel bod eich gwefan yn dal i fod ar agor yn y cefndir.


Mae **lawr lwythiadau PDF, Holiaduron digidol a 'Sgwrs byw'** yn enghreifftiau o adnoddau rhyngweithiol gallwch ystyried er mwyn gwella profiad eich defnyddwyr. Ystyriwch hefyd **hygyrchedd**, mae gwasanaethau ar gael sydd yn newid sut mae lliwiau yn ymddangos neu faint y ffont i gynnwys defnyddwyr gydag anghenion ychwanegol. Mae tagio lluniau gyda 'Alt tags' hefyd yn helpu darllenwyr sgrin i ddisgrifio cynnwys delweddau a fideo i'ch defnyddwyr.

ARFAU AI AR GYFER GWEFANNAU: Copilot

Microsoft sydd yn berchen ar ac yn pweru **Copilot**.

Mae'n gallu cael ei ddefnyddio fel 'chat bot' ar wefanau yn cynnig atebion ieithyddol naturiol a gwella effeithiolrwydd. Gallwch gysylltu Copilot gyda data eich gwefan fel ei fod yn gallu ateb cwestiynau yn seiliedig ar eich cynnwys yn benodol. Fel canlyniad mae'n gwella profiad eich defnyddwyr wrth arbed eich amser yn y broses.

Mae'r fersiwn sylfaenol o Copilot am ddim ond mae angen talu i gael mynediad at rai o'r gwasanaethau mwyaf.



RHESTR WIRIO GWEFAN

☐

YMGYSYLLTU GYDA'CH CYMUNED I GAEL ADBORTH AR BA WELLIANNAU GWEFAN
HOFFENT NHW EU GWELD

☐

ADOLYGU STRWYTHUR EICH PRIF DDEWISLEN AC ADDASU LLE BO ANGEN

☐

YSTYRIED OS YDY BLWCH CHWILIO A HIDLENNI YN DEBYGOL O HELPU I WELLA PROFIAD
EICH DEFNYDDWYR

☐

SICRHAU FOD EICH GWEFAN YN YMATEB I WAHANOL DDYFEISIAU AC YN GWEITHIO AR
BOB MATH

☐

ADOLYGU COPI EICH GWEFAN I SICRHAU EI FOD YN GRYNO AC YN GYFREDOL

☐

ADOLYGU DELWEDDAU A FIDEOS AR Y WEFAN I SICRHAU FOD CYMAINT Â PHOSIB YN
RHAI GWREIDDIOL

☐

YCHWANEGU ADRAN BLOGIO I'CH GWEFAN A CHYNLLUNIWCH EICH 3 BLOG CYNTAF

☐

YSTYRIED YCHWANEGU ADRAN CWESTIYNAU CYFFREDIN AR EICH GWEFAN

☐

ADOLYGU EICH FFONT A'CH LLIWIAU I SICRHAU EU BOD YN GYSON TRWY'R WEFAN

☐

ESBONIO YN GLIR PWRPAS EICH SEFYDLIAD A DANGOSWCH AR Y DUDALEN GARTREF

☐

SICRHAU FOD GAN EICH GWEFAN TYSTYSGRIF SSL

RHESTR WIRIO GWEFAN

	SICRHAU FOD GAN EICH GWEFAN POLISI PREIFATRWYDD		GOSOD LOGOS EICH SIANELI CYFRYNGAU CYMDEITHASOL I AGOR MEWN TAB NEWYDD
	YCHWANEGU UNRHYW GYMWYSTERAU EU GWOBRAU PERTHNASOL		YSTYRIED YCHWANEGU GWASANAETHAU YCHWANEGOL I WELLA HYGyrCHEDD EICH GWEFAN
	YCHWANEGU SGÖR ADOLYGIADAU		RHOI AMSER I ADOLYGU EICH YSTADEGAU PERFFORMIAD POB MIS NEU BOB CHWARTER
	YCHWANEGU ASTUDIAETHAU ACHOS NEU STRAEON O LWYDDIANT		YSTYRIED DEFNYDDIO ARFAU AI I'CH HELPŲ WRTH GYNNIG PROFIAD CADARNHAOL I DDEFNYDDWYR EICH GWEFAN
	YCHWANEGU 'BOTYMAU GALW' (CTA) TRWY EICH GWEFAN		
	SICRHAU FOD RHODDION TRWY BLATFFORMAU CODI ARIAN DIGIDOL YN WELADWY TRWY EICH GWEFAN		
	YCHWANEGU ADRAN TANYSGRIFIO CYLCHLYTHYR (BYDDWCH YN YMWYBODOL O'CH POLISI PREIFATRWYDD WRTH GASGLU DATA PERSONOL - GWELER ADRAN 7)		
	YCHWANEGU FFURFLEN GYSWLLT		
	SICRHAU FOD MODD CLICIO AR EICH RHIF FFÔN WRTH DDEFNYDDIO FFÔN SYMUDOL		
	YCHWANEGU MAP RHYNGWEITHIOL GAN DDEFNYDDIO GOOGLE MAPS		



**GWELEDDD AR LEIN
(SEO)**



SEO
Ranking

GWELEDEDD AR LEIN (SEO)

Os ydych chi wedi gweithredu ar y camau o'r adran flaenorol, dylech fod yn falch o wefan effeithiol sy'n barod i gefnogi prif nodau eich sefydliad. **Cofiwch nid yw wefan deniadol a soffistigedig yn werthfawr os nad yw'n denu defnyddwyr.**

Un ffordd hollbwysig o ddenu traffig i'ch gwefan ydi trwy sicrhau ei fod yn weladwy ar beiriannau chwilio poblogaidd fel **Google, Bing a Yahoo**. Er enghraifft, ymddangos ar dudalen 1 ar gyfer y term 'prosiectau cymunedol yn yr ardal yma'.

SEO (Search Engine Optimisation) ydi'r term defnyddiwyd i ddisgrifio'r weithred o wella sgôr eich gwefan o fewn canlyniadau peiriannau chwilio, neu SERPs (Search Engine Results Pages) ar gyfer chwiliadau perthnasol. Mae gwefan sy'n perfformio yn dda yn eich helpu i ddenu **mwyafrag gweiddiol (heb orfod talu amdanynt)** er mwyn cyrraedd mwyafrag o bobl.

Er mwyn eich helpu i wella gweledd ar lein eich gwefan o fewn y peiriannau chwilio, rydym wedi torri'r broses SEO i 2 categori sef **SEO ar dudalen** ac **SEO oddi ar dudalen**.

SEO AR DUDALEN

Mae SEO ar dudalen yn cyfeirio at y broses o wneud newidiadau i'ch gwefan sy'n meddwl **bod y peiriannau chwilio yn deall ac felly un gallu sgorio eich gwefan ar gyfer termau chwilio penodol.**


Mae'n bwysig nodi taw pwmpas y peiriannau chwilio yw rhoi dewisiadau perthnasol a defnyddiol i'r defnyddwyr wrth chwilio am wybodaeth. Maent yn blaenoriaethu gwefannau gweithgar sydd yn diweddarau cynnwys yn aml yn hytrach na rhai segur sydd ddim.

Dyma pam mae cyhoeddi cynnwys newydd **ar dudalen blog** mor effeithiol ar gyfer SEO. Pob tro mae rhywun yn cyhoeddi blog newydd, mae'n dudalen newydd i beiriannau chwilio fel Google i gategoreiddio.

I wella SEO dylech ddefnyddio **geiriau allweddol penodol** rydych eisiau i'r peiriannau chwilio ddarganfod a sgorio eich gwefan yn uchel e.e. 'Canolfan ieuencid yn Senghennydd'. Un ffordd o adnabod y geiriau allweddol yma ydi trwy ofyn i'ch cefnogwyr, dilynwyr a noddwyr yn eich cymuned am **awgrymiadau** posib byddent yn debygol o ddefnyddio wrth chwilio am y pethau rydych yn cynnig fel sefydliad.

Ffordd arall o adnabod geiriau allweddol penodol ydi trwy ddefnyddio'r **Google Search Console** (GSC) ar eich gwefan. Mae'n cynnig mewnwelediadau at berfformiad eich gwefan ar gyfer geiriau penodol ac yn awgrymu gwelliannau posib i godi safle eich gwefan pan mae pobl yn chwilio am y pethau hynny.

Crëwch restr o dermau chwilio penodol i'ch helpu i benderfynu ar ba eiriau allweddol i ganolbwyntio arnynt ar ran SEO. Dylech ganolbwyntio ar **dermau allweddol hirach** sef termau sydd fel arfer 3 gair neu fwy e.e. 'gwasanaethau plant ym Mhenarth' yn hytrach na thermau unigol fel 'gofal'. Mae llai o gystadleuaeth ar dermau allweddol hirach sy'n golygu bod eich gwefan yn fwy tebygol o ymddangos ar dudalen 1 ar y peiriant chwilio ac wrth reswm yn fwy tebygol o gael ymwelwyr ar eich gwefan.



SEO AR DUDALEN

Sicrhewch fod eich term allweddol hirach wedi lleoli ym mhob rhan berthnasol o'ch gwefan. Mae hwn yn gwneud yn siŵr fod y peiriannau chwilio yn gwybod lle mae'r wybodaeth benodol ar eich gwefan. Dyma'r rhannau allweddol:



Tag teitl - Sicrhewch fod eich tagiau teitl yn unigryw, yn berthnasol ac yn cynnwys eich term allweddol hirach. Cadwch y tag teitl o fewn 60 cymeriad ar y bysellfwrdd.



Disgrifiad Meta - defnyddiwch y disgrifiad yma i grynhoi cynnwys y dudalen. Defnyddiwch eich term allweddol hirach ac anelwch at rhwng 150-160 cymeriad.



URL - Dyma gyfeiriad ar y we i dudalen penodol ar eich gwefan. Eto, dylech gynnwys geiriau allweddol yn eich URL e.e. mae www.gwefan.cymru/gwasanaethau-plant-penarth yn well na www.gwefan.cymru/tudalen-1.



Penawdau - Dylai'r pennawd fod yn gyson gyda'ch tag teitl a chynnwys eich term allweddol hir.



Corff y testun - this is where your text appears in the main body of your web page. Ensuring your focused keywords are present within the body text reinforces its relevance to search engines.



Enwi delweddau - Dylech ail enwi ffeiliau delweddau am well cyfle i bobl darganfod eich gwefan e.e. mae [gwasanaethau-plant-Penarth.jpg](#) yn well na [Image006235.jpg](#). Dylech hefyd ychwanegu disgrifiad i'r ddelwedd ar gyfer gwell hygyrchedd a sgorio gan y peiriannau chwilio.



Dolenni mewnol - Cysylltwch i dudalennau eraill ar eich gwefan i helpu'r peiriannau chwilio i gategoreiddio ac felly gallu darganfod pethau ar eich gwefan yn hawdd. Mae dolenni mewnol hefyd yn helpu gwella profiad y defnyddiwr. O safbwynt technegol, sicrhewch fod y dolenni yn gweithio er mwyn bodloni algorithmau'r peiriannau chwilio.

Awgrym pellach ar SEO ar dudalen ydi sicrhau fod eich gwefan yn **ymatebol** sef yn gweithio yn ddidrafferth ar unrhyw ddyfais neu faint sgrin.

Mae **cyflymder llwytho tudalennau** yn ffordd arall o helpu eich gwefan i sgorio yn well ar y peiriannau chwilio. Gallwch ddefnyddio arfau fel Compressor i leihau maint ffeiliau cyn ychwanegu at y wefan sydd yn helpu gyda chyflymder llwytho eich tudalennau.

Defnyddiwch ddolenni mewnol at dudalennau eraill o fewn eich gwefan i helpu peiriannu chwilio i ddeall strwythur eich gwefan.

O safbwynt technegol, gwnewch yn siŵr bod eich gwefan yn gweithio gyda dim dolenni sydd wedi torri, delweddau sydd ddim yn llwytho neu gynnwys sydd wedi dyblygu er mwyn cydymffurfio gydag algorithmau'r peiriannu chwilio.

FFOCWS OPTIMEIDDIO ALLWEDDOL

Ble i osod yr allweddair ffofws ar y dudalen?



SEO ODDI DUDALEN

Mae SEO ar dudalen yn cyfeirio at y broses o wneud newidiadau tu allan i'ch gwefan ond sydd yn effeithio ar eich sgôr gan y peiriannau chwilio ac felly'r nifer o bobl sydd yn darganfod y cynnwys. Rhan fawr o hyn ydi adeiladu 'perthynas' gyda'r peiriannau chwilio, dyma rhai awgrymiadau ar sut i wneud hwn:



Dolenni am yn ôl - Dyma ddolenni ar wefan arall sydd yn arwain pobl at eich gwefan. Y mwyaf o ddolenni am yn ôl, y gorau. Er hynny, mae'n well cael llai o ddolenni safonol na nifer fawr o rai sydd ddim. Er enghraifft os ydi dolen i'ch gwefan yn ymddangos ar wefan newyddion credadwy, bydd yn ymddangos yn uwch yn y peiriannau chwilio na 10 dolen am yn ôl ar wefannau llai adnabyddus.



Cyfryngau cymdeithasol - Tra bod y cyfryngau cymdeithasol ddim yn cael effaith ar eich sgôr gyda'r peiriannau chwilio yn benodol, mae ymgysylltiad gwell yn gallu gyrru mwy o draffig at eich gwefan. Bydd hwn yn ei dro yn adeiladu 'perthynas' gyda'r peiriannau chwilio.



Cyfrif Google Business - Adnodd ar lein yn rhad ac am ddim ydi Google Business (Google My Business cynt). Mae'n cynnig rheolaeth i sefydliadau ar ran sut maent yn ymddangos ar google gan gynnwys google maps. Mae'n meddwl bod pobl yn gallu darganfod manylion pwysig fel eich cyfeiriad, oriau gwaith, rhif ffôn a gwefan. Mae cael cyfrif Google Business yn gallu gwella pa mor weladwy ydy eich gwefan ar Google. Gallwch wneud yr un peth ar Bing Places ar gyfer cyrraedd defnyddwyr Bing.



Adolygiadau - Mae derbyn adolygiadau cadarnhaol ar blatfformau fel Google Business, Trystipilot a Yell yn helpu wrth ddenu pobl newydd at eich gwefan i'w cymharu â gwefan gyda llai o adolygiadau cadarnhaol. Mae hwn hefyd yn helpu gyda'r 'perthynas' gyda'r peiriannau chwilio yn ogystal ag enw da eich sefydliad.

• optimeiddio allweddair

- meta disgrifiad
- cysylltu mewnol
- tagiau teitl
- cynnwys o safon
- testun alt
- ssl/https
- strwythur url

SEO AR DUDALEN



SEO ODDI DUDALEN



- SEO lleol
- Dolenni am yn ôl
- awdurdod parth
- signalau cymdeithasol
- talu-fesul-clic

ARF AI AR GYFER SEO:



Arf ysgrifennu ar gyfer gwella eich SEO ydi **Surfer AI**. Mae'n cynhyrchu cynnwys sydd yn alinio gydag anghenion penodol eich cynulleidfda. Mae'n gallu dadansoddi canlyniadau'r peiriannau chwilio ar gyfer termau penodol a dangos beth yn union maent yn chwilio amdanynt. Bydd hwn yn gymorth mawr i chi wrth wella eich SEO.

Tra bod Surfer AI yn cynnig rhai gwasanaethau am ddim, mae'r gwasanaethau craidd angen taliad.



RHESTR WIRIO SEO

	YMGYSYLLTU GYDA'CH CYMUNED I ADNABOD EICH GEIRIAU ALLWEDDOL		GOFYN AM ADOLYGIADAU O'R GYMUNED AR Y CYFRIFON UCHOD
	DEFNYDDIO GOOGLE SEARCH CONSOLE AR EICH GWEFAN AC ADOLYGWCH Y CANLYNIADAU		YSTYRIED MANTEISIO AR ARFAU AI I'CH HELPŲ I WELLA EICH SEO
	PENDERFYNU EICH RHESTR O EIRIAU ALLWEDDOL		
	ADOLYGU STRWYTHUR PRESENNOL EICH GWEFAN AC YCHWANEGWCH AIR ALLWEDDOL MEWN MANNAU PENODOL AR BOB TUDALEN E.E. TAG TEITL, DISGRIFIAD META, URL AYB		
	YCHWANEGU DOLENNI MEWNOL TRWY EICH GWEFAN		
	PROFI CYFLYMDER EICH GWEFAN TRWY DDEFNYDDIO GOOGLE'S PAGE SPEED INSIGHT TOOL		
	SICRHAU FOD DIM PROBLEMAU TECHNEGOL E.E. DOLENNI SYDD DDIM YN GWEITHIO		
	DARGANFOD GWEFANNAU PERTHNASOL A GOFYNNWCH AM DDOLENNI AM YN ÔL O'U GWEFANNAU NHW AC AT EICH GWEFAN CHI		
	SICRHAU EICH BOD YN DEFNYDDIO DOLENNI AT EICH GWEFAN AR EICH SIANELI CYFRYNGAU CYMDEITHASOL		
	SEFYDLU CYFRIF GOOGLE BUSINESS PROFILE AR GYFER EICH SEFYDLIAD		
	SEFYDLU CYFRIF BING PLACES AR GYFER EICH SEFYDLIAD		



newID

CAM **05**

**CYFRYNGAU
CYMDEITHASOL**



CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Mae rhannu cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol yn ffordd boblogaidd ac effeithiol o rannu cynnwys fel rhan o strategaeth marchnata ddigidol eangach eith sefydliad. Mae'n bwysig nodi, ni ddylai marchnata ar y cyfryngau cymdeithasol bod yr unig ffordd rydych yn hyrwyddo eich gwasanaethau.

Does dim cyfrif cyfryngau cymdeithasol yn well na gwefan. Mae buddsoddwyr a noddwyr yn edrych ar wefannau er mwyn magu hyder a byddwn wedyn yn troi at y cyfryngau cymdeithasol i atgyfnerthu eu barn.

Does dim cost ariannol mewn sefydlu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol, dim ond amser ond er hynny mae nifer o sefydliadau yn aneffeithiol gyda'u defnydd ohonynt.

Yn yr adran yma, byddwn yn cynnig awgrymiadau i'ch helpu i farchnata eich hunain yn fwy effeithiol i gael gwell canlyniadau i'ch sefydliad.

PA GYFRIFON CYFRYNGAU CYMDEITHASOL SYDD ORAU I'CH SEFYDLIAD?

Mae'n well treulio amser yn rhedeg llai o blatfformau na rhedeg nifer fawr yn aneffeithiol.

Ar ran dewis pa blatfform er mwyn blaenoriaethu eich ymdrechion, dylai hwn dibynnu ar le mae eich cynulleidfa nid pa un mae unigolion o fewn y sefydliad yn hoffi fwyaf. Dyma grynodedd ar 6 prif blatfform cyfryngau cymdeithasol i'ch helpu dod i benderfyniad ar ba un neu rhai sydd yn fwyaf addas i dargedau eich sefydliad.



Meta sydd tu ôl i Facebook gyda'r gynulleidfa fwyaf o unrhyw blatfform, er i'r nifer gostwng yn ddiweddar i 3.049 biliwn). Mae agos at 60% o'i defnyddwyr rhwng 25-54 sy'n ei wneud yn ddewis poblogaidd i sefydliadau sy'n anelu at gynulleidfa hyn.

Mae'n caniatáu pobl i bostio testun, lluniau, fideos (byr a hir), dolenni ac erthyglau. Mae'r algorithmau yn blaenoriaethu cysylltiadau personol ac oherwydd hynny, mae tyfu cysylltiadau neu ddilynwr yn bwysig.

Ar Facebook mae modd rhedeg cyfrifon personol a busnes. Dylwch sefydlu cyfrif busnes i'ch sefydliad oherwydd mae'n caniatáu targedu mwy trylwyr ar gyfer marchnata, adolygu data a delwedd brand mwy proffesiynol. Mae hefyd yn eich helpu i gadw eich bywyd personol ar wahân i waith eich sefydliad.

Gallwch ddewis osodiadau fel monitro sylwadau, h.y. Eu bod yn gorfod cael eu cymeradwyo cyn bod y cyhoedd yn gweld. Rydym yn argymhell hwn yn gryf.





Fel Facebook, Meta sydd hefyd yn rhedeg Instagram ac mae ganddynt gynulleidfa eang o ddefnyddwyr sef tua 2 biliwn. Mae 70.8% o'r rhain yn 34 neu iau sydd yn gwneud Instagram yn ddewis poblogaidd i'r rhai sydd yn anelu at gynulleidfa ifanc.

Ap ar ffôn symudol ydi lle mae'r rhan fwyaf yn ei ddefnyddio gyda nifer fach yn defnyddio cyfrifiadur. Mae'n caniatáu defnyddwyr i bostio lluniau (hyd at 20 ar y tro) neu fideos (hyd at 90 eiliad ar yr ap). Mae hefyd modd postio 'stori' lle mae cynnwys yn diflannu ar ôl 24 awr.



Yn debyg i Facebook, mae modd creu cyfrif personol neu fusnes ar Instagram. Er bod y ddau fath o gyfrif yn edrych yn debyg, mae gan gyfrifon busnes rhai gwahaniaethau fel cyfyngiad ar ddefnydd o gerddoriaeth drwyddedig am resymau hawlfraint. Mae'n bwysig sefydlu eich cyfrif fel un broffesiynol wrth redeg fel sefydliad rhag ofn i chi fynd yn erbyn eu termau a cholli'r cyfrif heb rybudd.

Mantais marchnata ar Facebook ac Instagram ydi'r ffaith eich bod yn gallu cysylltu'r ddau trwy'r Meta Business Suite. Mae hwn yn hwyluso'r broses o gynllunio ac amserlennu cynnwys i arbed amser.



Platfform rhannu fideos sydd wedi ei ddatblygu gan Google ydi Youtube. Mae unrhyw un yn gallu sefydlu cyfrif ac ennill incwm o'r cynnwys os ydynt yn cyrraedd nifer penodol o sesiynau gwyllo. Mae modd postio fideos hir, neu fyr (shorts) sef rhai hyd at 60 eiliad o hyd.

Un anfantais posib i Youtube ydy'r hysbysebion, does gan sefydliad dim dewis ar ran pa hysbysebion sy'n ymddangos ar eu cyfrifon sy'n golygu gall hysbysebion eich cystadleuwyr ymddangos yng nghanol eich cynnwys.



Platfform poblogaidd ydi TikTok lle mae defnyddwyr yn creu, rhannu a gwyllo fideos byr gyda ffocws ar adloniant a chreadigrwydd. Dyma oedd yr ap cafodd ei lawr lwytho fwyaf yn 2024 gyda chynulleidfa o 1.562 biliwn erbyn hyn. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain rhwng 18 a 24.

Dyma hefyd y platfform sydd yn ymgysylltu fwyaf gyda'r gynulleidfa yn nhermau sesiynau gwyllo. Ar gyfartaledd mae pobl yn gwyllo am 10-11 munud gyda'r rhan fwyaf yn chwilio am gynnwys fideo doniol a hwyllog.

Mae algorithmau TikTok yn hael ar ran pa mor bell mae eich cynnwys yn cael teithio tu allan o'ch dilyniant craidd. Oherwydd hyn mae'n ddewis poblogaidd i sefydliadau sydd eisiau cynyddu ymwybyddiaeth eu brand ar raddfa byd eang.

Er ei fod yn bosib i'ch cynnwys fod yn bell gyrhaeddol, gall dadlau nad ydy'r gynulleidfa yn berthnasol iawn e.e. os nad ydynt o fewn eich cymuned na'r gynulleidfa targed.




Microsoft ydi datblygwyd LinkedIn ac mae'n platfform gyda ffocws ar fydd busnes ar gyfer pobl broffesiynol. Mae buddsoddwyr a noddwyr yn aml yn weithgar ar LinkedIn sy'n ei wneud yn platfform pwysig i sefydliadau yn y drydedd sector. Yma mae modd creu cysylltiadau, rhannu arfer dda a hyd yn oed darganfod rhoddion at eich achos. Rhan bwysig o bwrpas LinkedIn ydy rhwydweithio a chyfarfod pobl i chi gael helpu eich gilydd.

Gall bostio testun, lluniau, fideos, cyflwyniadau a digwyddiadau ar LinkedIn. Yn debyg i Facebook, mae LinkedIn yn caniatáu rheoli cyfrifon unigol neu fusnes. Dylech sefydlu cyfrif busnes i'ch sefydliad oherwydd mae'n cyfleu delwedd brand mwy proffesiynol wrth gadw eich tudalen personol ar wahân.



Mae X yn caniatáu defnyddwyr i bostio hyd at 280 cymeriad, lluniau, fideos, dolenni a pholau. Dangosir ymchwil fod 48% o'r defnyddwyr yn chwilio am newyddion, bod tua 1 mewn 4 yn dod o'r America a bod tua 10% o'r defnyddwyr yn gyfrifol am 92% o'r cynnwys. H.y. maent yn postio 157 y mis ar gyfartaledd.

Unwaith rydych wedi dewis eich platfformau o ddewis, dylech sefydlu'r cyfrifon **gan gynnwys prif fanylion eich sefydliad** e.e. llun profil, disgrifiad, dolenni i'ch gwefan ayb.



PA MOR AML I BOSTIO?

Mae algorithmau nifer o platfformau wedi eu gosod i ddangos eich cynnwys i'r dilynwyd sydd yn ymgysylltu fwyaf gyda'ch cyfrif chi. Os nad ydy carfan o bobl yn ymgysylltu trwy hoffo, postio neu rannu ni fydd eich cynnwys yn ymddangos ar eu ffrydiau mor aml. Felly, **mae postio cynnwys perthnasol o safon werth mwy na phostio cynnwys llai perthnasol yn amlach.**

'Cyfnod bywyd' unrhyw bost ydi tua 43 munud ar X, 76 munud ar Facebook, 20 awr ar Instagram a 24 awr ar LinkedIn. Eto, wrth benderfynu pa platfformau i sefydlu, ystyriwch yr amser a'r adnoddau fydd angen i baratoi cynnwys safonol sydd am berfformio yn dda.

Instagram	3-5/wythnos
IG Stories	2/dydd
Facebook	1-2/dydd
X (Twitter)	2-3/dydd
LinkedIn	1-2/dydd
Threads	2-3/dydd
TikTok	3-5/dydd
Pinterest	1/dydd
GMB	1/dydd

Mae'n well gan algorithm unrhyw blatfform os ydych yn **cyhoeddi cynnwys gwreiddiol** yn hytrach na rhannu cynnwys o gyfrifon eraill. Er mae rhannu cynnwys yn werthfawr weithiau, cofiwch fydd cynnwys gwreiddiol yn perfformio yn well.

Mae nifer o arfau am ddim i'ch helpu wrth gynllunio cynnwys cyfryngau cymdeithasol o flaen llaw (gweler adran 10). Maent yn cynnwys arfau amserlennu sy'n caniatáu cynllunio ac amserlennu sawl post o flaen llaw fel bod eich tudalennau yn weithgar tra eich bod yn gweithio ar bethau eraill.

Yn y pen draw, gwraidd y cyfryngau cymdeithasol ydi cymdeithasu, felly **cofiwch ymateb i eraill yn ogystal â rhannu cynnwys gwreiddiol**. Gall hwn feddwl 'hoffi' cynnwys eraill, a gadael sylwadau yn gyson. Trwy wneud hwn, rydych yn gwella'r tebygolrwydd bydd eraill yn ymgysylltu â'ch cyfrifon chi yn y dyfodol.

Mae'n well amserlennu cynnwys o flaen llaw yn ogystal â threulio amser i ymateb i gynnwys eraill fel rhan o'ch wythnos yn y gwaith. Sefydlwch system sydd yn caniatáu cyfnod amser yn ystod y flwyddyn fel ymrwymiad i ddadansoddi perfformiad eich cynnwys a diweddarau pethau.

SYNIADAU AR GYFER CYNNWYS

Dylai cynnwys anelu at addysgu, ysbrydoli neu gynnig adloniant. Ceisiwch osgoi'r ymdrech i werthu cynnyrch yn rhy aml oherwydd mae'n gallu arwain at lai o ymgysylltu a gwaeth fyth, pobl yn eich dad ddilyn.

Byddwch yn wreiddiol ac yn onest gyda'r cynnwys, bydd hwn yn eich helpu wrth ennill ffydd eich cynulleidfda dros amser.

Mae'r math o gynnwys rydych yn cynnig yn bwysig, felly defnyddiwch **gynnwys weledol a hashnodau**. Ymgysylltwch gyda'ch dilynwyr presennol ac aelod eich cymuned i ddarganfod pa fath o gynnwys hoffent eu gweld ar eich tudalennau. Defnyddiwch eu syniadau yn ogystal â syniadau o'r rhestr isod i'ch helpu i gynllunio eich cynnwys cyfryngau cymdeithasol o flaen llaw:

Diwrnod yn fy mynd	Codi ymwybyddiaeth o ddiwrnodau neu ddatliadau perthnasol	Arddangos gwasanaethau neu gynnrych
Cip tu ôl i'r llenni	Polau piniwn	Sut i ddatrys problemau cyffredin yn eich maes
Crynodeb wythnos neu fis	Hysbysebu rôl	Ateb cwestiynau cyffredin
Diweddariadau prosiect	Awgrymiadau arfer dda	Dolen i dudalen newydd ar eich gwefan e.e. blog newydd
Digwyddiadau	Rhoi pethau am ddim	Dathlu pen-blwydd staff neu'r sefydliad
Gweithdai	Ffeithiau	Post am rywbeth cyfredol yn y newyddion e.g. 'bake off', cwpan y byd pêl droed
Gwobrau	Rhestrau (Listicle)	Pwyntiau trafod o lyfr perthnasol
Cyfarfodydd / gweithgareddau staff	Cystadlaethau	Fideo o'ch safbwynt chi (POV - Point of view)
Dod i nabod aelodau) o staff	Lluniau cyn ac ar ôl	Astudiaeth achos
Codi arian	Apeliadau	Rhestrau wirio
Edrych yn ôl	Dangos gwerth cefnogaeth	Cyfeirio at y tywydd
Propiau	Stori eich brand	
Cydweithio	Adolygiadau	

Ac yn olaf 'atomeiddio' cynnwys, sef torri lawr blog ac adroddiadau mewn i gynnwys ar wahân. Er enghraifft:

- 01 Ysgrifennu blogpost
- 02 Torrwch ef yn 3 postiad LinkedIn
- 03 Torrwch y rheini i 8 trydriad
- 04 Trowch y trydriadau yn fideos
- 05 Postiwch nhw ar TikTok ac IG
- 06 Trowch y blog yn Fideo YouTube
- 07 Anfonwch grynodeb at eich rhestr e-bost

1 darn o gynnwys = 22 darn o gynnwys



CYNNWYS GAN Y DEFNYDDIWR

(User Generated Content - UGC)

Mae cynnwys gan y defnyddiwr yn fath o gynnwys sydd wedi eu creu gan ddilynwyd brand neu ddefnyddwyr a chefnogwyr unrhyw sefydliad. **Gall gymharu â phobl yn rhannu arfer dda ar lafar**, yn debyg i 'word of mouth' ond yn ddigidol. Mae'n chwarae rôl hollbwysig yn y broses o dyfu eich dilyniant at y cyfryngau cymdeithasol. Mae hefyd yn berthnasol iawn i sefydliadau yn y drydedd sector sydd yn aml heb gyllid sylweddol neu amser i dreulio yn datblygu hwn.

Dangosir ymchwil for 92% o ddefnyddwyr yn ymddiried mewn cynnwys ar lein sydd wedi eu rhannu gan ffrindiau neu deulu uwchben pob math arall o hyrwyddo gan unrhyw frand. Felly, mae annog cefnogwyr eich sefydliad i greu cynnwys gan y defnyddiwr (UGC) yn hanfodol wrth **atgyfnerthu neges eich brand ac ennyn ffydd ymysg eich cynulleidfia targed**.

Mae hefyd yn helpu codi incwm. Er enghraifft, os ydy dilynwr yn postio sawl gwaith am ymgyrch codi arian maent yn rhedeg ar eich rhan. Trwy dagio a gwneud sylwadau maent yn codi ymwybyddiaeth eich brand yn y broses. Pan mae ffrind neu aelod o'r teulu yn gweld y post yna ac yn penderfynu ymuno â'r ymgyrch, mae'r dilynwr wedi cynhyrchu UGC eu hun. Wrth ystyried bod gan ar gyfartaledd defnyddwyr Facebook 338 o ffrindiau a bod y ffigwr o gwmpas 150-200 ar Instagram, gall effaith fod yn gadarnhaol iawn.

Yn syml "Dim ond 2 person sy'n gallu rhoi gwybod i rywun diarth am eich cynnyrch, 1) chi a 2) pobl eraill. Mae mwy ohonynt na chi" - Alex Hormozi.

Felly, mae'n bwysig i sefydliadau yn y drydedd sector gwneud y mwyaf o **UGC lle bynnag sy'n bosib** yn hytrach na phoeni am golli rheolaeth. Mae hyn yn bwysig yn enwedig os ydych yn bodoli at achos da.

ADDASU GYDA NEWIDIADAU I'R CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Mae'r tirlun yma yn newid o hyd felly byddwch yn barod i addasu ac esblygu fel rhan o'ch strategaeth hir dymor. Er enghraifft, yn 2022 cafodd Twitter ei brynu gan Elon Musk ac arweiniodd at nifer o newidiadau i'r plattfform gan gynnwys newid yr enw i X. Yn Ionawr 2025 cafodd TikTok hefyd ei wahardd yn America cyn iddo ddod yn ôl.

Byddwch yn ymwybodol nad chi sydd yn berchen ar eich cyfrifon ond y plattfform sydd. Gall gymharu gyda'r meddylfryd o **'beidio adeiladu tŷ ar dir rywun arall'** h.y. peidiwch â dibynnu arnynt fel eich unig ffordd o ymgysylltu oherwydd hall 'perchnogion y tir' newid y safle yn sydyn iawn.

Mae plattfformau hefyd yn **newid eu halgorithmau o hyd** er mwyn ceisio cydbwysu rhwng cynnig y profiad orau i'r defnyddiwr, gwneud arian a chystadlu gydag eraill. Er enghraifft, mae llwyddiant TikTok fel plattfform o gynnig fideos byr ar gyfer adloniant wedi arwain i blattfformau eraill fel Instagram ac YouTube newid yr hyn maent yn cynnig. Maent wedi addasu eu halgorithmau i flaenoriaethu fideos byr er mwyn amddiffyn eu siâr o'r gynulleidfia.

Byddwn yn trafod marchnata ymhellach yn yr adran nesaf.


ARF AI AR GYFER Y CYFRYNGAU



Peiriant poblogaidd sydd yn cynhyrchu testun, codau, delweddau a mwy ydi [ChatGPT](#). Yn seiliedig ar y wybodaeth rydych yn rhoi i mewn, mae'n gallu cynhyrchu mewn eiliadau.

Ar ran cefnogi eich sefydliad gyda chreu cynnwys, gall arbed amser trwy gynnig **syniadau ar gyfer cynnwys, creu penawdau** neu hyd yn oed **awgrymu atebion i sylwadau sydd ar eich cynnwys**.

Mae ChatGPT am ddim, ond mae fersiwn gellir talu amdani gyda mwy o wasanaethau sydd hefyd yn caniatáu mwy o ddefnydd.



RHESTR WIRIO CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

☐

YMGYSYLLTU GYDA'CH CYMUNED I ADNABOD Y MATH O GYNNWYS HOFFENT EU GWELD

☐

DEWIS Y PLATFFORMAU CYWIR AR GYFER EICH CYNULLEIDFA

☐

SICRHAU FOD EICH TUDALENNAU CYFRYNGAU CYMDEITHASOL WEDI SEFYDLU YN IAWN AC YN CYNNWYS EICH MANYLION ALLWEDDOL E.E. LLUN, DISGRIFIAD, DOLEN I'R WEFAN AYB

☐

YSTYRIED EICH ADNODDAU MEWNOL A PHWY FYDD YN GYFRIFOL AM GYNHYRCHU CYNNWYS

☐

CYNLLUNIO EICH STRATEGAETH CYNNWYS AR GYFER Y MIS NEU CHWARTER NESAF

☐

YSTYRIED DEFNYDDIO ARFAU AMSERLENNU FEL [BUFFER](#) NEU [HOOTSUITE](#)

☐

LAWR LWYTHO'R APIAU AR EICH FFÔN A SICRHEWCH FOD YR HYSBYSIADAU YMLAEN

☐

RHOI AMSER O FEWN EICH WYTHNOS I GYNHYRCHU CYNNWYS AC I YMATEB I GYNNWYS PERTHNASOL ERAILL

☐

YSTYRIED ARFAU AI I'CH HELPU I GREU CYNNWYS SAFONOL

☐

MEDDWL AM GYFLEOEDD I ANNOG ERAILL I GREU CYNNWYS GAN Y DEFNYDDIWR (UGC)

☐

RHOI AMSER I DDADANSODDI PERFFORMIAD EICH CYNNWYS POB MIS NEU CHWARTER



newID

CAM 06

FIDEO

MARCHNATA FIDEO

Fel soniwyd yn yr adran flaenorol ar y cyfryngau cymdeithasol, mae marchnata fideo yn chwarae rôl arwyddocaol yn ffordd mae sefydliadau yn cyrraedd ac yn ymgysylltu gyda mwy o bobl.

Nid yn unig ydi ffurf fideo yn cyrraedd yn bell, ond mae hefyd yn ffordd bwerus o **gyfleu neges sydd yn dal dychymyg cynulleidfa**. Mae'n gwneud fideo felly yn ddewis delfrydol ar gyfer sefydliadau yn y drydedd sector gyda hunaniaeth gref a ffocws ar eu prif bwrpas yn hytrach nag elw ariannol. Mae ymgysylltu gyda'ch cynulleidfa ar lefel emosiynol yn arf farchnata heb ei ail.

"Rydym yn cofio 95% o'r hyn rydym yn gweld ac yn clywed, ond rydym yn cofio ond 10% o'r hyn rydym yn darllen"

Jon Mowat of Hurricane Media at #BeMoreDigital.

CYCHWYN GYDA FIDEO

Er y buddion amlwg, mae nifer o sefydliadau yn methu a defnyddio fideo i'w lawn botensial ar blatfformau fel gwefannau, cyfryngau cymdeithasol ac mewn hysbysebion ar lein.

Y prif reswm am hwn ydy diffyg gwybodaeth ar sut i gynhyrchu cynnwys fideo o safon neu ddiffyg hyder i sefyll o flaen camera.

Rydym yn annog pobl i ddod dros y rhwystrau yma a **bod yn gyfforddus gyda marchnata fideo** neu fod ar anfantais wrth geisio cyrraedd eich targedau.

Cofiwch, mae'r tro cyntaf yn gwneud rhywbeth fel arfer yn her. Meddyliwch am reidio beic, nofio neu bostio ar lein am y tro cyntaf er enghraifft. Nid yw'n bosib gwneud unrhyw beth am y 100fed tro heb wneud am y tro cyntaf felly byddwch yn hyderus a rhowch gynnig arni.

Nid oes angen i fideo cymryd llawer o amser chwaith.

Yn ôl Jon Mowat o Hurricane Media, fel unigolion rydym yn dueddol o edrych ar hyd y fideo cyn penderfynu gwyllo. Mae'r diagram isod un dangos bod ar fideo 60 eiliad, mae 50% wedi gadael o fewn 5 eiliad. Oherwydd hyn, ystyriwch saethu a chyhoeddi fideos ffurf fer (short form) sy'n apelio o fewn y 3 eiliad cyntaf er mwyn denu gwylwyr i barhau i wyllo.

DEFNYDD AML BLATFFORM

Dylai gynnwys fideo cael eu dosbarthu ar draws sawl platfform er mwyn codi'r cyrhaeddiad ac ymateb. **Mae ail adrodd o'ch cynnwys fideo yn dda** wrth helpu'ch cynulleidfa i gofio'r wybodaeth. Dyma pam mae cwmnïau sy'n hysbysebu ar y teledu yn talu am sawl slot un hytrach na un dangosiad.

Mae platfformau cyfryngau cymdeithasol yn ddewis amlwg ar gyfer cyhoeddi cynnwys fideo oherwydd y rhesymau cynt o'r rhan fwyaf o algorithmau yn blaenoriaethu fideo dros bob fformat arall. Mae TikTok, fideos byr ar YouTube (shorts) ac ar Instagram (reels) yn ddelfrydol.

Mae eich **gwefan** yn blatfform delfrydol arall ar gyfer arddangos cynnwys fideo. Rydym wedi sôn yn barod bod defnyddwyr yn penderfynu o fewn yr eiliadau cyntaf o gyrraedd os am aros neu adael. Mae arddangos fideo ar eich tudalen cartref felly yn cynnig naws personol sydd yn effeithiol wrth gadw defnyddwyr ar eich gwefan. Ystyriwch dangos yr hyn rydych yn eu gwneud gyda'ch cymuned i greu'r argraff fwyaf posib.

Gall ddefnyddio cynnwys fideo ar **dudalennau glanio** eraill o fewn eich gwefan er mwyn cyfathrebu negeseuon mewn ffordd eglur yn ogystal ag annog gweithred e.e. adolygiad neu fideo sy'n cynnwys pobl yn dangos eich gwaith da.

Mae'n bwysig nodi ni ddylech lwytho ffeil fideo mawr i'ch gwefan oherwydd gall effeithio ar gyflymder eich tudalennau yn llwytho. Canlyniad posib o hyn ydi pobl yn gadael y wefan yn gyfan gwbl. Mae'n well uwch lwytho eich cynnwys fideo ar blatfformau fel YouTube neu Vimeo a defnyddio cod embedio i ddangos y fideo ar eich gwefan.

Gall fideo hefyd cael ei ddefnyddio fel ffurf bwerus o hysbysebu ar blatfformau fel Google neu Meta - mwy o hyn yn adran 8. Ystyriwch farchnata e-bost fel ffordd effeithiol arall o ddosbarthu cynnwys fideo sydd hefyd yn caniatáu mesur perfformiad.

Tu hwnt i'r byd digidol, gallwch arddangos cynnwys fideo mewn ystafelloedd aros, ar stondin mewn arddangosfa neu mewn cais ar gyfer buddsoddiad o flaen torf byw.



SYNIADAU AR GYFER CYNNWYS FIDEO

Ar gyfer sefydliadau yn y drydedd sector, gallwch ystyried sawl math o gynnwys fideo i ymgysylltu â'ch cynulleidfa, lledaenu neges a chodi cefnogaeth. Ymgysylltwch gyda'ch cymuned i ddarganfod pwy fyddai'n barod i fod yn rhan o fideo fel hyn, nhw ydy'ch arf fwyaf pwerus. Ystyriwch y mathau yma o gynnwys fideo:



Adrodd stori - Fideo sy'n dangos straeon o lwyddiant gan bobl sydd wedi elwa, neu gip tu ôl i'r llenni o'r math o waith sy'n digwydd yn eich sefydliad.



Codi ymwybyddiaeth ac addysgu - Fideo sydd fel arfer yn esbonio eich achos a pham rydych yn bodoli fel sefydliad. Gall codi ymwybyddiaeth o broblemau sy'n wynebu pobl yn eich cymuned sydd yn fwy tebygol o gynyddu gweithgarwch. Mae cynnig ffeithiau ac ystadegau hefyd yn gallu bod yn effeithiol iawn.



Ymgychu a chodi arian - Gall fideo sy'n apelio gyda neges benodol neu alwad am gefnogaeth trwy rodd ariannol yn gallu bod yn effeithiol wrth ddal dychymyg eich cynulleidfa. Ystyriwch hefyd fidio yn diolch am y gefnogaeth, mae'r rhain yn aml yn gwella eich perthynas gyda'ch cynulleidfa sydd yn gallu arwain at gefnogaeth bellach yn y dyfodol.



Dangos digwyddiadau - Mae rhoi sylw i ddigwyddiad sy'n dod, un sydd newydd fod neu hyd yn oed dangos yn fyw yn ffyrdd da o gael sylw ac ennyn diddordeb. Ystyriwch ffilmio cip tu ôl i'r llenni wrth baratoi, sesiwn cwestiwn ac ateb ar blatfformau fel Facebook Live neu Zoom gyda darn i gamera yn crynhoi'r cyfan ar y diwedd.



Sêr y sefydliad - Gall gynnwys aelod o staff, gwirfoddolwr neu gynrychiolydd o sefydliad arall sydd wedi cydweithio â chi yn ddiweddar. Mae taflu golau ar 'sêr eich sefydliad' yn cryfhau eich perthnasoedd ac yn dangos sut fath o sefydliad ydych chi.



Heriau - Gallwch annog defnydd annog cynnwys gan y defnyddiwr (UGC) trwy osod her ar gyfer pobl sydd yn eich dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol. Gwnewch yn siŵr i gynnwys pob aelod o'r tîm gan obeithio bydd pob un yn herio eraill yn eu rhwydweithiau nhw er mwyn lledaenu'r neges.

Byddwch yn ymwybodol o'r hyn sydd yn digwydd yn y cefndir wrth ffilmio cynnwys, lle posib mae cael eich brandio yn y fideo yn edrych yn broffesiynol boed yn arwydd, ar grys neu rhywle arall yn y cefndir.

OFFER FIDEO

Rhywbeth arall i'w ystyried wrth feddwl am gynhyrchu cynnwys fideo o safon ydy'r offer byddwch chi angen. Mae datblygiadau **ffonau symudol** yn meddwl bod y rhan fwyaf o ffonau diweddar ar y farchnad yn ddigon da i ffilmio cynnwys fideo o safon.

Mae safon sain hefyd yn bwysig, ystyriwch fuddsoddi mewn **meicroffonau**, yn enwedig os ydych yn bwriadu recordio mewn steil cyfweiliad neu podlediad. Mae **'tripod'** yn ffordd syml o gadw camera yn llonydd wrth recordio neu gall ddefnyddio **'gimbal'** ar gyfer recordio wrth symud.

Efallai byddwch eisiau ystyried goleuadau syml yn ddefnyddiol wrth greu cynnwys fideo. Mae golau fel **'light rings'** yn rhad ond yn gwneud gwahaniaeth mawr i safon orffenedig y fideo. Ar ran cadw'r cynnwys byddwch yn ei ffilmio, ystyriwch fuddsoddi mewn teclyn storio fel Cerdyn SD neu ofod storio yn y cwmwl. Ar ran arfau i olygu fideo byddwn yn rhannu rhai awgrymiadau yn adran 10.



ARF AI AR GYFER FIDEO: runway

Platfform sy'n defnyddio AI i greu a chodi safon cynnwys fideo ydi **Runway**. Ei wasanaeth fwyaf poblogaidd ydi 'GenerativeVideo' sy'n cynnig caniatáu defnyddwyr i greu cynnwys fideo sy'n gynnwys testun, delweddau neu hyd yn oed fideos eraill. Mae hefyd yn cynnig arfau golygu er mwyn newid y cynnwys mae'n ei greu.

Mae Runway yn cynnig cynllun 'sylfaenol' am ddim gyda nifer cyfyngedig o ddefnydd. Ar ôl hwnna mae angen tanystrifio gyda thaliad.



RHESTR WIRIO FIDEO

- YMGYSYLLTU GYDA'CH CYMUNED I ADNABOD PA FATH O GYNNWYS HOFFENT EU GWELD
- YMCHWILIO A BUDDSODDWCH YN YR OFFER ADDAS
- CYNLLUNIO EICH STRATEGAETH CYNNWYS FIDEO AR GYFER Y MIS NEU'R CHWARTER
- SEFYDLU CYFRIFON A DEFNYDDIWCH ARFAU GOLYGU FEL **CAPCUT** NEU **KINEMASTER**
- SICRHAU FOD EICH FIDEO YN APELIO O FEWN Y 5 EILIAD CYNTAF
- YCHWANEGU IS DEITLAU LLE BO ANGEN
- YSTYRIED ARFAU FIDEO AI LLE POSIB I'CH HELPU WRTH GYNHYRCHU CYNNWYS FIDEO SAFONOL
- DOSBARTHU CYNNWYS FIDEO AR DRAWS EICH PLATFFORMAU CYFRYNGAU CYMDEITHASOL PERTHNASOL
- RHOI AMSER I DDADANSODDI PERFFORMIAD EICH FIDEOS POB MIS NEU CHWARTER



newID

CAM 07

E-BOST

MARCHNATA E-BOST

Marchnata e-bost ydi anfon negeseuon sydd wedi eu teilwro yn arbennig tuag at eich cynulleidfa dros e-bost. Mae'n effeithiol fel rhan o strategaeth marchnata gyfan, ond yn aml mae marchnata e-bost yn cael ei diystyried gan sefydliadau. O bosib oherwydd ei fod yn cael ei weld fel ffordd hen ffasiwn i gymharu â'r cyfryngau cymdeithasol er enghraifft.

Er hyn, mae marchnata e-bost yn aml yn perfformio yn well na marchnata ar y cyfryngau cymdeithasol ar ran ysbrydoli pobl i gydweithio.

"Mae e-bost dros 40 gwaith yn fwy effeithiol wrth ddenu cwsmeriaid na Facebook ac X gyda'i gilydd"
source: McKinsey & Company study.

CASGLU DATA

Mae Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) y meddwl gewch chi ddim ond cynnwys e-bost rhywun ar eich rhestr marchnata **e-bost os ydynt wedi rhoi caniatâd yn benodol i chi wneud**. Mae angen felly rhestr tanygrifwyr clir ar lein neu rhywle arall fel prawf o'r caniatâd. Mae angen hefyd rhoi cyfle i'r tanygrifwyr i adael y rhestr e-byst unrhyw bryd maen nhw eisiau.

Dyma rhai esiamplau o farchnata e-byst heb ganiatâd:

"Rydym wedi prynu 1000 o gyfeiriadau e-bost"

"Roeddem mewn arddangosfa lle rhoddwyd rhestr o enwau a manylion cyswllt gan gynnwys cyfeiriadau e-bost gan y trefnwyr"

"Rydym wedi bod yn casglu cardiau busnes mewn digwyddiadau rhwydweithio"

"Rwyf wedi cael gafeal ar e-byst pobl mewn e-bost daeth ata i mewn camgymeriad"

Mae meddalwedd cylchlythyron fel **Mailchimp**, **Constant Contact** a **Mailerlite** yn cynnwys ffurflen tanygrifio i sefydliadau cael cynnwys ar eu gwefannau. Maent hefyd yn gyfeillgar i'r defnyddiwr gyda nifer o adnoddau dadansoddi da er mwyn gallu rheoli perfformiad eich ymgynghoedd marchnata e-byst.

Cylchlythyr
Cofrestrwch i'n cylchlythyr am awgrymiadau, dyddiadau hyfforddiant a chynigion

Ebost

Tanygrifio

Rydym â'n awgrymu eich bod yn rhoi cymhelliant i bobl er mwyn tanygrifio e.e. 'Tanygrifiwch i'n rhestr e-byst i dderbyn gostyngiad o 10% ar eich archeb nesaf'. Mae cynnig gwybodaeth ddefnyddiol am danygrifio yn ddewis da ar gyfer sefydliadau sydd ddim yn gwerthu cynnyrch penodol e.e. 'Ymunwch â'n rhestr e-byst i gael ein 5 rysâit orau ar gyfer y Gwanwyn'. Gelwir y broses yma yn 'gated content' ac mae modd gosod pethau fel bod y cynnwys yma yn cyrraedd yn syth ar ôl i rywun tanygrifio.

CYFRADD AGOR

Does dim ots pa mor dda ydy'ch neges os nad ydy'r cyhoedd yn eu hagog. Mae cynnwys llinell agoriadol effeithiol mor bwysig â chynnwys yr e-bost ei hun.

"Dylai 80 cent o'ch dolar cael eu gwario ar ysgrifennu penawdau"

David Ogilvy

Dyma nifer o dactegau posib ar gyfer penawdau i'r blwch testun i ystyried wrth strwythuro cylchlythyr.

Mae meddalwedd marchnata e-byst hefyd yn caniatáu i chi **gategoreiddio cynulleidfa** o briodoleddau fel demograffeg neu ymddygiad. Trwy gategoreiddio eich cynulleidfa gallwch chi deilwro eich cynnwys yn well at wahanol bobl i wella'ch cyfradd agor e-byst yn ogystal â'ch cyfradd clicio a'ch gwerthiant neu ymgysylltiad.

Mae'r ystadegau gan Campaign Monitor yn dangos taw 21.8% yw'r gyfradd agor ar gyfartaledd. Dydd Llun ydy'r diwrnod orau ar gyfer cyfraddau agor a 3yh ydy'r amser orau i yrru e-bost. **Rydym yn argymhell eich bod yn gyrru cylchlythyrau o leiaf unwaith y mis a dim mwy na dwywaith yr wythnos.**

01	Diddordeb	e.e. Darllenwch i ddarganfod sut rydym wedi helpu pobl yn y gymuned.
02	Cynnig	e.e. ANHYGOEL 10% i ffwrdd mis Mawrth
03	Ar frys	Peidiwch â methu'r wers gitâr am ddim nos Fercher
04	Personol	Helo Grant, Pwy wyt ti'n adnabod yn y fideo yma o'n weithdy diweddar?
05	Datganiad	Dewch i gael profiad hanfodol yn y maes adeiladu!
06	Atgoffa	Beth sy'n digwydd ar bwyllgor Pontypandy yr wythnos hon?
07	Labelu	e.e. Aelodau cymuned Pontypandy!
08	Cwestiwn 'le'	"le, fi ydy hwnna!" e.e. Ydych chi'n edrych am gyllid grant ar gyfer prosiect?
09	Datganiad 'os ydych'	e.e. Os ydych chi'n chwilio am leoliad...

MATHAU O GYNNWYS

Dyma rhai enghreifftiau o'r math o gynnwys gallwch eu cynnwys yn eich ymgyrchoedd marchnata e-bost:



Newyddion - Diweddarwch eich tanygrifwyr ar ran beth sy'n digwydd o fewn y sefydliad. Gall hwn gynnwys cyhoeddiadau am staff newydd, diweddariadau prosiect neu unrhyw newidiadau perthnasol iddynt.



Holiaduron a galwadau am adborth - Dyma ffordd arbennig o ofyn i'ch cymuned am eu barn ac adborth. Defnyddiwch holiaduron i gasglu gwybodaeth ar eu hanghenion a'u hawgrymiadau i'ch helpu i deilwra'r gefnogaeth at eu hanghenion.



Cynnwys addysgiadol - Rhwch rywbeth o werth i'ch tanygrifwyr trwy rannu gwybodaeth ddefnyddiol sy'n berthnasol i'ch maes. Gall hwn gynnwys blog, 'sut i wneud' neu ddelweddau gwybodaeth fel 'infographics'.



Manylion neu wahoddiad i ddigwyddiad - Os ydych chi'n cynnal digwyddiad, boed ar lein neu yn y cnawd, gallwch anfon gwahoddiadau a diweddariadau i'ch tanygrifwyr. Gwnewch yn siŵr i gynnwys manylion y digwyddiad, sut i gofrestru ac unrhyw fanylion fel y siaradwyr gwadd a threfn y digwyddiad.



Cynigion - Rhannwch gynigion neu ostyngiadau arbennig, dyma ffordd arbennig o berswadio pobol i danystrifio trwy eu gwobrwyo am wneud. Gallwch bwysleisio amser cyfyngedig i gael y wobwr hefyd.



Cynnyrch neu wasanaethau newydd - Gallwch gynnwys delweddau safon uchel, disgrifiadau a dolenni i'w wneud yn hawdd i'w defnyddiwr archwilio ac ymgyswrtu â'r cynnyrch neu wasanaethau newydd.



Straeon o lwyddiant - Mae gwerth datlu straeon o lwyddiant try eu rhannu. Dylech gynnwys pobl yn eich cymuned yn sôn am sut maent wedi elwa o'r gwasanaethau rydych yn eu cynnig. Bydd hwn nid yn unig yn cryfhau eich enw da ond hefyd arddangos y gwaith pwysig rydych yn gwneud yn y gymuned.

STRWYTHUR Y CYLCHLYTHYR

Cadwch eich cylchlythyr yn **gryno**. Os ydych e-bost rhy hir, ni fydd y rhan fwyaf o bobl yn ei ddarllen. Mae angen osgoi ceisio hysbysebu pob newid neu ddiweddariad mewn un cylchlythyr. Yn hytrach, defnyddiwch real o 'sgrolio 2 with' lle mae unrhyw beth sydd angen sgrolio yn fwy a hynny ar sgrin arferol yn rhy hir.

Ceisiwch drafod un pwnc yn unig ym mhob cylchlythyr fel bod gan bob un ei bwnc ei hun. Os ydych chi'n ceisio ysgrifennu am sawl pwnc, mae'n syniad da eu rhannu mewn i sawl cylchlythyr i'w postio ar adegau gwahanol. Dylai'r wybodaeth yn eich cylchlythyron fod yn berthnasol, o ddefnydd ac yn werthfawr i'ch tanystrifwyr.

O safbwynt dylunio, dylech ddangos cysondeb yn nhermau'r lliwiau, ffont a'r tŷn. Dylai'r cynnwys hefyd fod yn hawdd i'w darllen, ystyriwch destun tywyll ar gefndir golau fel canllaw sylfaenol.

Defnyddiwch ddelweddau neu fideo creadigol i atgyfnerthu'ch negeseuon. Yn olaf, fel ar eich gwefan, dylai eich cylchlythyr cynnwys botymau galw. Dylai'r botymau galw yma arwain defnyddiwr at dudalennau perthnasol, e.e. tudalen sy'n annog pobl i danystrifio, tudalen codi arian neu eich blog diweddaraf.

Fel crynodeb, dylai cylchlythyr cynnwys **pennawd trawiadol**, **cynnwys e-bost da a dolen i dudalen glanio** effeithiol er mwyn gweld y canlyniadau gorau. Ystyriwch wirio pob dolen cyn anfon yr e-bost.

ARF AI AR GYFER MARCHNATA EBOST:



Arf AI o fewn HubSpot ydi **Campaign Assistant** sydd yn gallu creu e-byst cryf ac awgrymu tudalennau glanio yn ogystal ag asedau marchnata eraill. Mae angen rhoi gwybodaeth ar yr ymgyrch rydych yn hyrwyddo.

Mae'n gwella effeithiolrwydd y broses o greu cylchlythyr trwy gynhyrchu copi AP safonol sydd yn gyd fynd gyda 'tŷn' a theimlad eich sefydliad.

Mae Campaign Assistant gan HubSpot ar gael am ddim i unrhyw sefydliad sydd yn creu cyfrif ar HubSpot.



RHESTR WIRIO MARCHNATA E-BOST

	YMGYSYLLTU GYDA'CH CYMUNED I DDARGANFOD PA FATH O GYNNWYS CYLCHLYTHYR HOFFENT EU DERBYN		YSTYRIED DEFNYDDIO ARFAU AI AR GYFER EBOST LLE YN BERTHNASOL I'CH HELPU I GYNHYRCHU CYNNWYS EBOST O SAFON
	SICRHAU FOD PAWB WEDI RHOI CANIATÂD I FOD AR EICH RHESTR E-BYST		RHOI AMSER I DDADANSODDI PERFFORMIAD EICH CYNNWYS FIDEO POB MIS NEU CHWARTER
	SEFYDLU CYFRIFON A DEFNYDDIWCH GOD EMBEDIO WRTH RAGLENNI FEL MAILCHIMP , MAILTERLITE NEU CONSTANT CONTACT		
	YSTYRIED FFYRDD O ROI CYMHELLIANT I DDENU TANYSGRIFWYR NEWYDD		
	DEFNYDDIO TEMPLEDI SYDD YN CANIATÁU NEWIDIADAU ER MWYN CREU CYLCHLYTHYR SY'N ADDAS I'CH BRAND		
	CYNLLUNIO EICH STRWYTHUR CYNNWYS CYLCHLYTHYRON AR GYFER Y MIS NEU'R CHWARTER		
	CREU TUDALEN GLANIO PERTHNASOL I'CH YMGYRCH MARCHNATA E-BOST OS OES ANGEN		
	DILYN RHEOL '2 SGRÔL' WRTH GREU CYLCHLYTHYR		
	DEFNYDDIO BOTYMAU GALW (CTAS) YN EICH CYLCHLYTHYR		
	CREU TUDALEN GLANIO PERTHNASOL I'CH YMGYRCH MARCHNATA E-BOST OS OES ANGEN		
	PROFI EICH CYLCHLYTHYR AR AELOD O STAFF CYN ANFON I BAWB AR Y RHESTR E-BYST		



newID

CAM **08**

HYSBYSEBU AR LEIN

HYSBYSEBU AR LEIN

Mae hysbysebu ar lein yn arf pwerus ac yn ffordd arbennig i gyrraedd ac i ymgysylltu â'r gynulleidfa. Os ydych chi'n ceisio codi ymwybyddiaeth, gyrru rhoddion ariannol neu hyrwyddo digwyddiad maent yn gallu bod yn fuddiol iawn.

Serch hynny, gyda chymaint o wahanol fathau o hysbysebion a phlatfformau ar gael, gall fod yn her i wybod lle i ddechrau. Yn yr adran yma, byddwn yn trafod y dulliau mwyaf poblogaidd, sut maen nhw'n gweithio a sut i ddewis y rhai sydd fwyaf addas ar gyfer eich amcanion.

MATHAU O HYSBYSEBION AR LEIN

Wrth ystyried rhedeg hysbysebion ar lein, y cam cyntaf ydi adnabod pa fath o hysbysebion a phlatfformau sydd fwyaf addas i'ch busnes a'ch amcanion. Gyda chymaint ar gael, dyma rhai o'r mathau mwyaf poblogaidd:




Hysbysebion ar beiriannau chwilio - Os nad ydych wedi rhedeg hysbysebion ar beiriannau chwilio o'r blaen, mae'n siŵr eich bod wedi gweld nhw. Maent fel arfer yn ymddangos ar ben rhestr o ganlyniadau peiriannau chwilio (fel Google neu Bing). Maen nhw'n gweithio trwy ddweud wrth y peiriannau chwilio pa bryd i ddangos eich hysbyseb pan mae rhywun yn chwilio am bethau penodol. Er enghraifft, os ydych yn chwilio am 'Rhoi arian i elusen' mae'n debygol fyddwch yn gweld hysbysebion gan sefydliadau elusennol ar ben y rhestr canlyniadau.



Hysbysebion arddangos - Hysbysebion mewn ffurf delwedd sydd yn ymddangos ar wefannau pobl eraill tra bod defnyddiwr ar y wefan yna ydi hysbysebion arddangos. Maent yn effeithiol wrth godi ymwybyddiaeth brand ac mae modd targedu llyfdd penodol i'r delweddau yma arddangos ar lein.

Fel enghraifft mae **targedu ymddygiadol** a **thargedu cyd-destunol**. Mae **targedu ymddygiadol** yn targedu defnyddwyr yn seiliedig ar eu hymddygiad a phatrymau gweithgaredd ar lein. Er enghraifft, os ydi rhywun wedi chwilio am 'Cynnyrch eco cyfeillgar' neu bori gwefannau yng nghylch cynaliadwyedd, gall hysbyseb gan sefydliad amgylcheddol ymddangos.

Mae **targedu cyd-destunol** yn targedu defnyddwyr yn seiliedig ar gynnwys y wefan mae'r hysbyseb yn ymddangos arni. Er enghraifft, os ydi rhywun yn darllen erthygl am iechyd meddwl, gall hysbyseb am sefydliad sy'n cefnogi pobl gyda phroblemau iechyd meddwl ymddangos. Mae'r dull yma yn sicrhau fod yr hysbyseb y berthnasol i'r cynnwys.






Hysbysebion cyfryngau cymdeithasol - Mae hysbysebion cyfryngau cymdeithasol yn ymddangos ar blatfformau fel Facebook, Instagram, LinkedIn a TikTok. Maent yn caniatáu targedu cynulleidfaoedd yn seiliedig ar eu diddordebau, demograffeg ac ymddygiad ar lein. Mae'r math yma o hysbysebu yn effeithiol wrth geisio codi ymwybyddiaeth neu annog gweithred fel rhoddion ariannol neu arwyddo deisebau. Mae'r dewisiadau yma yn cael eu gwneud ar y platfform ei hun, lle allwch greu a rheoli ymgyrchoedd marchnata, gosod cyllid a dewis eith cynulleidfaoedd penodol.

Defnyddiwch hysbysebion Facebook/Instagram er mwyn ymgysylltu â chefnogwyr a rhannu diweddariadau gyda delweddau, fideo a hysbysebion carwsél. Mae LinkedIn yn ddewis da ar gyfer targedu cynulleidfaoedd proffesiynol neu feysydd penodol. Defnyddiwyd gan lawer ar gyfer sefydlu partneriaethau corfforaethol neu chwilio am nawdd a buddsoddiad. Anfantais posib i hysbysebu ar LinkedIn ydy'r gost, mae'n gallu bod yn ddrytach na platfformau eraill oherwydd eich bod yn targedu cynulleidfaoedd busnes mwy arbenigol.

Mae hysbysebion TikTok yn ddewis doeth os ydych chi'n ceisio cyrraedd cynulleidfaoedd iau gyda chynnwys fideo ber sy'n dal dychmyg. Ystyriwch hefyd platfformau eraill fel Pinterest, Snapchat ac X ar gyfer eich ymgyrchoedd marchnata. Mae pob un yn dod gyda'i chyfleoedd i dargedu cynulleidfaoedd penodol ac i ymgysylltu gyda'r defnyddwyr hynny.



Hysbysebion ail farchnata - Ydych chi wedi chwilio am rywbeth ar lein, fel gwyliau neu par o esgidiau cyn sylweddoli hysbysebion am yr union bethau yna ym mhob man ar lein ar ôl hynny? Hysbysebion ail farchnata ydy'r rhain. Maent yn targedu defnyddwyr sydd wedi bod ar eich gwefan o'r blaen ac yn eu hannog i ddod yn ôl i weithredu, fel arfer trwy brynu rhywbeth neu danysgrifio.

Mae Dyma fath o hysbysebu defnyddiol wrth hyrwyddo cynnyrch neu wasanaethau lle mae defnyddiwr fel arfer angen mwy o amser i feddlw ac ystyried cyn gwneud penderfyniad. Er enghraifft, os ydych yn rhedeg ymgyrch i hyrwyddo digwyddiad elusennol, gall hysbysebion ail farchnata targedu'r defnyddwyr sydd wedi bod ar eich gwefan ond heb danysgrifio neu brynu tocyn, ac yn eu hannog i wneud.

Mae Maent ar gael ar draws nifer o blatfformau, o hysbysebion arddangos ar y Google Display Network i'r cyfryngau cymdeithasol fel Meta (Facebook ac Instagram). Mae'n bosib defnyddio'r dull yma i dargedu defnyddwyr yn uniongyrchol o fewn ei ffrydiau neu 'stories'.

PA FATH O HYSBYSEBION I DDEFNYDDIO?

Does dim un dull sy'n gweithio yn well pob tro wrth ddod i ddewis mathau o hysbysebion. Bydd yr hysbysebion a'r platfformau sy'n perfformio orau yn amrywio yn seiliedig ar eich sefydliad, diwydiant neu dargedau. Er hynny, mae rhai mathau o hysbysebion yn dueddol o fod yn fwy effeithiol ar gyfer nodau personol:

Ymwybyddiaeth brand - Mae hysbysebion arddangos a hysbysebion cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol ar gyfer codi ymwybyddiaeth eich brand. Maent yn gallu cyrraedd cynulleidfa fawr gyda chostau cymharol isel, sy'n eich helpu i gael eich negeseuon o flaen cymaint o bobl â phosib.

Hysbysebion gyrru gwerthiant / tanysgrifwyr - Ar gyfer y math yma o ymgyrchoedd, hysbysebion ar beiriannau chwilio ydy'r rhai mwyaf effeithiol yn aml. Maent yn targedu defnyddwyr sydd yn chwilio am yr hwn rydych yn cynnig, felly mae eich hysbyseb yn ymddangos o flaen y bobl gywir ar yr amser cywir. Mae platfformau cyfryngau cymdeithasol hefyd yn caniatáu hysbysebion sydd yn caniatáu defnyddwyr i gyflwyno eu gwybodaeth yn uniongyrchol trwy'r hysbyseb. Mae hwn yn gwneud y broses yn gyfleus ac yn gynt i'r defnyddwyr.

RHEOLI CYLLID

Wrth benderfynu ar gyllid ar gyfer eich ymgyrchoedd hysbysebu, mae'n bwysig i gadw llygaid barud ar eich gwariant. Nid yn unig ydych chi eisiau osgoi gwario gormod, neu dim digon, ond mae hefyd angen sicrhau for canlyniadau cadarnhaol yn deillio o'r ymgyrch.

Dyma rhai argymhellion ar gyfer rheoli eich cyllid yn effeithiol:

Gosod cyllid clir: Mae pob platfform yn caniatáu i chi osod cyllid penodol ar gyfer yr ymgyrch, boed yn gyllid dyddiol neu 'gydol oes' (Gyda dyddiadau cychwyn a therfyn).

Monitro: Mae rhai platfformau yn gallu gorwario (dros y cyllid), felly mae monitro ac addasu yn oll bwysig.

Strategaethau bidio: Mae nifer o blatfformau yn cynnig strategaethau bidio sydd yn defnyddio systemau cyfrifiadurol i addasu faint ydych chi'n fodlon talu am bob clic, sydd yn gallu eich helpu optimeiddio'r cyllid ar gyfer canlyniadau gwell.

Defnyddiwch eich cyllid mewn llefydd sy'n perfformio yn dda: Os ydych yn sylwi fod rhai ymgyrchoedd, dewisiadau targedu neu hysbysebion yn perfformio yn well, rhwch fwy o'ch cyllid atynt.

CREU HYSBYSEBION EFFEITHIOL

Heb os, **cynnwys eich hysbysebion** ydi'r elfen bwysicach wrth dal dychymyg eich cynulleidfa. Dyma'ch cyfle cyntaf i gyflwyno eich sefydliad ac i wneud argraff dda. Er mwyn sicrhau fod eich hysbysebion yn effeithiol, dyma rhai awgrymiadau.

Derbyn adborth gan rywun sy'n ddiarth i'ch sefydliad:

Siaradwch â rhywun yn y gymuned sydd ddim yn ymwybodol o'r hyn rydych yn cynnig i ddarllen eich hysbyseb. Os nad ydy'n eglur iddynt, mae'n debygol na fydd yn effeithiol yn gyhoeddus chwaith.

Cofiwch gynnwys botwm galw (CTA):

Mae botwm galw yn hanfodol. Dwedwch wrth eich cynulleidfa beth yn union rydych eisiau nhw i wneud nesaf, boed ystyried rhodd ariannol, tanysgrifio neu ddysgu mwy. Mae botwm galw mewn lle da yn gallu gwella perfformiad yn sicr.

Defnyddiwch ddelweddau clir a syml:

Ar gyfer hysbysebion gweledol, defnyddio delweddau sydd yn syml ac yn glir. Dylech osgoi delweddau 'prysur' sydd llawn o wahanol elfennau gall o bosib tynnu sylw oddi ar y neges graidd. Y mwyaf syml ac eglur mae'r ddelwedd, y gorau.


Profi, profi, profi a phrofi eto: Profwch bob tro! Mae'n syniad da i arbrofi gyda delweddau neu fideos ochr wrth ochr i weld pa rhai sydd yn perfformio yn well. Ar gyfer hysbysebion ar beiriannau chwilio, arbrofwch gyda gwahanol benawdau a disgrifiadau i ddarganfod y cyfuniad sy'n dod â'r canlyniadau gorau. Mae profi yn eich helpu i wella'ch canlyniadau dros amser.

GRANT ELUSEN GOOGLE ADS

Ar gyfer elusennau cofrestredig, **gall fod yn gymwys** ar gyfer grant elusen Google Ads. Mae'n cynnig y cyfle i wario hyd at \$10,000 y mis ar hysbysebion peirannau chwilio. Er mwyn manteisio ar hwn, mae angen ymgeisio trwy [Google for Nonprofits](#). Bydd ceisiadau llwyddiannus wedyn yn barod i gychwyn rhedeg ymgyrchoedd hysbysebu.

Y peth gorau ydy'r ffaith bod dim angen poeni am dalu am y gwariant. Gallwch gyrraedd cynulleidfa llawer eangach heb effeithio ar eich cyllid craidd.

Byddwch yn ymwybodol fod yma rhai cyfyngiadau, er enghraifft mae'r hysbysebion ar gyfer rhai testun ar rwydwaith chwilio Google. Bydd angen cyrraedd eu gofynion i fod yn gymwys, ond os ydych yn elusen sydd eisiau gwella eich presenoldeb ar lein mae'r grand yma yn adnodd defnyddiol.



ARF AI AR GYFER HYSBYSEBU DIGIDOL:



Os ydych eisiau defnyddio AI i wella eich hysbysebion ac i dderbyn mewnwelediadau gwerthfawr i redeg ymgyrchoedd effeithiol, mae **Adzooma** yn ddewis doeth. Mae'n blatfform AI sydd yn symleiddio rheolaeth o'ch hysbysebion dros Google Ads, Facebook a Microsoft Ads. Un o'r prif bethau mae Adzooma yn cynnig ydi bidio, optimeiddio ac adrodd yn ôl sydd yn ddefnyddiol iawn i sefydliadau heb lawer o arbenigedd yn y maes.

Gwasanaeth am ddim ydi Adzooma, ond mae defnydd di ddiwedd angen tanystrifiad a thaliad.



RHESTR WIRIO HYSBYSEBU AR LEIN

	ADNABOD Y MATHAU O HYSBYSEBION A'R PLATFFORMAU ORAU AR GYFER EICH YMGYRCH		YSTYRIED YMGEISIO AR GYFER GRANT GOOGLE ADS OS YN BERTHNASOL I'CH SEFYDLIAD
	YMCHWILIO I HYSBYSEBION CYSTADLEUWYR I HELPU AC YSBRYDOLI		YSTYRIED ARFAU AI FIDEO I GYNHYRCHU HYSBYSEBION SAFONOL
	GOSOD CYFRIF HYSBYSEBION GYDA'R PLATFFORMAU O'CH DEWIS		PENODI AMSER I ADOLYGU PERFFORMIAD EICH HYSBYSEBION POB MIS NEU CHWARTER
	PENDERFYNU AR Y MATHAU O HYSBYSEBION AR GYFER EICH YMGYRCH		
	DEWIS A GOSODWCH DDEWISIADAU TARGEDU AR GYFER EICH YMGYRCH		
	SICRHAU FOD EICH HYSBYSEBION YN CYNNWYS BOTWM GALW CLIR (CTA)		
	CREU TUDALEN CARTREF ADDAS AR GYFER EICH YMGYRCH OS OES ANGEN		
	GOSOD Y CYLLID AR GYFER EICH YMGYRCH		
	YMGYSYLLTU GYDA'CH CYMUNED I DDERBYN ADBORTH AR EICH HYSBYSEBION CYN EU LANSIO		
	PROFI EICH HYSBYSEB GYDAG AELOD O'R TÎM CYN LANSIO'R YMGYRCH		
	DEFNYDDIO SYSTEM TRACIO A MONITRO LLE POSIB		



newID

CAM 09

MESUR
PERFFORMIAD

MESUR PERFFORMIAD

Gyda gwybodaeth mae grym ac un ffactor wych am farchnata yn ddigidol yd'r gallu i fesur data perfformiad i weld beth sy'n gweithio a beth sydd ddim. Heb fesur llwyddiant, rydych mwy neu lai yn ddall i'r holl broses.

Mae systemau mesur digidol am ddim yn aml ac yn rhan o nifer o'r prif blatfformau. Gallwch ddefnyddio'r data yma i wneud penderfyniadau gall wneud eich sefydliad yn fwy effeithiol ac effeithlon gyda'ch ymgyrchoedd marchnata digidol.

Peidiwch ddigalonni os nad ydy hysbyseb yn dangos y canlyniadau gorau o'r cychwyn, ond defnyddiwch hwnna fel cyfle i ddysgu ac addasu er mwyn cael llwyddiant yn y dyfodol. Ymgysylltwch â'ch dilynwyr a'ch cefnogwyr er mwyn derbyn adborth ganddynt hefyd.

DADANSODDI DATA O'CH GWEFAN

Gall arfau dadansoddi fel **Google Analytics 4** eich helpu i ddeall elfennau perfformiad fel sut mae defnyddwyr yn dod o hyd i'ch gwefan. Hefyd pethau fel i le maen nhw'n mynd ar ôl gadael, ar ba dudalennau maen nhw'n pori ac am ba hyd er enghraifft. Gallwch hefyd gosod system tracio er mwyn mesur pa ddulliau marchnata digidol sy'n gyfrifol am eich llwyddiannau. Gallwch dracio o le mae'r traffig yn deillio fel hyn:

- 01 Chwilio organig** - Traffig i'ch gwefan yn dilyn chwilio (heb hysbyseb) ar beiriant chwilio fel Google neu Bing.
- 02 Trwy hysbysebion ar beiriannau chwilio** - Traffic i'ch gwefan trwy hysbyseb ar beiriant chwilio fel Google neu Bing.
- 03 Cymdeithasol organig** - Traffig i'ch gwefan trwy ddefnyddiwr yn clicio ar ddolen oddi ar blatfform cyfryngau cymdeithasol e.e. Facebook neu LinkedIn.
- 04 Cyfryngau cymdeithasol** - traffig i'ch gwefan trwy ddefnyddiwr yn clicio ar ddolen o hysbyseb ar blatfform cyfryngau cymdeithasol e.e.. Facebook neu LinkedIn
- 05 Uniongyrchol** - Traffig i'ch gwefan ar ôl i ddefnyddiwr teipio eich cyfeiriad (URL) yn syth i'r porwr.
- 06 Atgyfeiriad** - Traffig i'ch gwefan o wefan allanol e.e. blog.


SESSION PRIMARY ...	SESSIONS	
Direct	1.1K	↑82.7%
Organic Search	1K	↑110.3%
Paid Search	1K	↑1,058...
Referral	167	↑351.4%
Cross-network	182	-
Organic Social	84	↓14.3%
Unassigned	23	↑666.7%

Last 12 months View traffic acqu... →

DADANSODDI DATA O'R CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Wrth ddadansoddi data o'r cyfryngau cymdeithasol gallwch weld pa gynnwys sydd yn perfformio orau ar ran cyrhaeddiad a faint sy'n ymgysylltu fel canlyniad. Mae hwn yn eich helpu i gynllunio cynnwys y dyfodol. Y nod ydy postio mwy o'r math o gynnwys mae eich cynulleidfia yn ymgysylltu â nhw, a llai o'r mathau llai effeithiol.

Mae arfau dadansoddi data ar gael o fewn cyfrifon busnes ar blattfformau cyfryngau cymdeithasol fel Facebook, Instagram, TikTok, LinkedIn ac X. Gan mai Meta sydd yn rhedeg Facebook ac Instagram, mae'n bosib eu cysylltu trwy'r Meta Business Suite. Mae'n eich caniatáu i dracio a monitro perfformiad mewn un lle.



DADANSODDI DATA CYLCHLYTHYRON

Wrth edrych ar gylchlythyron, mae'n bosib dadansoddi data sy'n seiliedig ar y **graddfeydd agor** a'r **graddfeydd clicio**. Byddwch yn ymwybodol taw nod cylchlythyron fel arfer ydy gyrru gweithgaredd fel pryniant neu roddion ariannol. Wrth reswm felly raddfeydd clicio a'r rhai sydd yn mynd ymlaen gyda gweithgaredd (conversion rates) ydy'r rhai pwysig i dracio trwy ddadansoddi data o'r wefan.

DADANSODDI DATA HYSBYSEBION

Mae'n bwysig tracio a monitro perfformiad eich hysbysebion oherwydd mae adnabod llwyddiannau yn eich helpu wrth addasu eich strategaeth a gwneud y gorau o'ch cyllid. Dyma rhai awgrymiadau ar gyfer tracio perfformiad eich hysbysebion:

Raddfa clicio (Click through rate - CTR): Mae graddfa clicio uchel yn dangos bod eich hysbyseb yn dal sylw eich cynulleidfia. Os yn isel, mae gwerth ystyried cynnwys yr hysbyseb.

Raddfa trosiant: Y raddfa trosiant ydy'r canran o bobl sydd wedi gweithredu ar ôl clicio ar yr hysbyseb e.e. gwneud rhodd neu brynu. Mae graddfa trosiant da yn meddwl nid yn unig bod eich hysbyseb yn cael llawer o bobl y clicio arni ond sydd hefyd yn cynhyrchu canlyniadau cadarnhaol i'ch sefydliad.

Cost Bob Clic (Cost per click CPC) a Chost Bob Caffael (Cost Per Aquisition CPA): Mae'r rhain yn dangos faint rydych yn talu am bob clic neu drosiant. Os ydych yn gwario gormod ac yn ennill ychydig iawn yn ôl, mae'n amser ail edrych ar eich strategaeth.

Elw ar Fuddsoddiad (Return on Investment ROI): Yn y pendraw, rydych eisiau gwybod os ydy'ch hysbyseb yn talu ei ffodd. Mae mesur yr elw ar fuddsoddiad yn dangos yr elw o ganlyniad eich ymgrych hysbysebu.

Profi A/B: Profwch wahanol fersiynau o'ch hysbysebion i weld pa rhai sy'n dal dychymyg eich cynulleidfia. Gall newid pennawd, delwedd neu fotwm galw cael effaith ar hyn ac mae'n ffordd dda o addasu wrth symud ymlaen.

Campaign	Clicks	↓ Impr	Cost	Conversion
Drafts in progress: 0				
	205	5,663	£54.22	32.00
	216	2,864	£52.24	43.00
	181	2,857	£48.20	38.00
	214	2,407	£57.45	55.00
	98	1,944	£30.72	17.00
	19	471	£29.19	1.00
	23	431	£26.62	1.00
	19	332	£27.84	0.00
	20	318	£30.26	2.00

DULL 80/20

Wrth adolygu data perfformiad a chynllunio strategaeth marchnata ddigidol, rydym yn argymhell dull 80/20. Anelwch at dreulio 80% o'ch amser a'ch cyllid ar ddulliau sydd wedi gweithio yn dda yn y gorffennol, a 20% ar arbofi â ffyrdd newydd.

Er enghraifft, dylai fod 4/5 o'ch cynnwys sydd wedi eu hamserlenni ar y cyfryngau cymdeithasol dangos yr un math o negeseuon sydd wedi gweithio yn y gorffennol, ac 1/5 mewn fformat neu gyda neges wahanol.

Trwy weithredu'r dull yma gallwch fod yn hyderus bod y rhan fwyaf o'ch cynnwys yn debygol o fod yn llwyddiannus wrth archwilio ffyrdd newydd o weithio gall ddod yn rhan o'ch 80% mewn amser.

Anelwch at **adolygu perfformiad eich marchnata digidol pob 1-3 mis** fel rhan o'ch strategaeth. Mae'n syniad da hefyd i fesur ar ôl cyfnod penodol er mwyn cynllunio at y dyfodol e.e. gall asesu yn dilyn apêl Nadoligaidd helpu wrth gynllunio'r nesaf.

PATRYMAU TYMHOROL

Wrth gynllunio eich marchnata digidol a mesur perfformiad, byddwch yn ymwybodol o **patrymau tymhorol** er mwyn sicrhau eich bod yn manteisio ar gyfnodau penodol o'r flwyddyn.

Er enghraifft, mae yna fwy o alw am bobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored i godi arian yn y Gwanwyn. Mae gofyn am gyfraniadau ariannol yn codi wrth arwain at y Nadolig a'r Flwyddyn newydd hefyd.

Mae nifer o arfau am ddim fel **Google Trends** yn ddefnyddiol wrth geisio darganfod y patrymau tymhorol sy'n berthnasol i'ch sefydliad. Gall cyfuno'r wybodaeth yma gyda'ch data presennol yn eich rhoi mewn lle da i allu osgoi cyfnodau llai effeithiol ac i ganolbwyntio ar gyfnodau mwyaf llwyrchus.

Gall mesur perfformiad ar ôl pob twf tymhorol helpu wrth benderfynu ar sail eich **80/20** ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mae cael systemau fel hyn mewn lle yn gallu arbed amser ac adnoddau.


ARF AI AR GYFER DADANSODDI:



Arf gan Salesforce sy'n dadansoddi data ac yn cynhyrchu delweddau defnyddiol o lefydd fel Google Analytics ydi **Tableau**. Gall eich helpu i ddeall eich traffig yn well trwy arddangos gwybodaeth mewn ffordd sy'n hawdd i'w ddeall.

Mantais o ddadansoddi ac arddangos eich data mewn un lle ydi'r arbed amser a hefyd crynhoi'r data sydd yn helpu wrth adolygu.

Mae fersiwn am ddim o'r enw Tableau Public, sydd yn caniatáu i ddefnyddwyr archwilio, creu a rhannu delweddau data ar lein.



RHESTR WIRIO MESUR PERFFORMIAD

-  SICRHAU FOD GOOGLE ANALYTICS WEDI GOSOD AR EICH GWEFAN
-  SICRHAU FOD GOOGLE SEARCH CONSOLE WEDI GOSOD AR EICH GWEFAN
-  SICRHAU FOD SYSTEM TRACIO TROSIANT WEDI GOSOD AR EICH GWEFAN
-  ADNABOD UNIGOLION I GAEL MYNEDIAD AT EICH DATA PERFFORMIAD A THREFNU CANIATÂD
-  ADOLYGU EICH DATA PERFFORMIAD PRESENNOL E.E. GWEFAN, CYFRYNGAU CYMDEITHASOL, CYLCHLYTHYR AC YMGYRCHOEDD HYSBYSEBION
-  DEFNYDDIO EICH DATA PERFFORMIAD PRESENNOL I BARATOI A CHYNLLUNIO AT Y MIS NEU CHWARTER NESAF GAN DDEFNYDDIO'R DULL 80/20
-  RHOWCH AMSER I ADOLYGU EICH DATA PERFFORMIAD POB MIS NEU CHWARTER





newID

CAM 10

ARF GWELLA
YMGYSYLLTIAD
DIGIDOL AM DDIM

ARF GWELLA YMGYSYLLTIAD DIGIDOL AM DDIM

Mae nifer fawr o arfau digidol am ddim ar gael i gefnogi sefydliadau heb lawer dim dim cyllid. Mae gwneud defnydd da o'ch **arf gwella ymgysylltiad digidol** yn helpu i wella eich gwaith marchnata digidol ac i gystadlu gydag eraill sydd â chyllid i wario yn y maes.

Yma fyddwn yn awgrymu nifer o'r arfau yma er mwyn i chi benderfynu pa rhai sy'n fwyaf addas i'ch sefydliad. Sylwch er bod yr arfau yma am ddim ar hyn o bryd, mae nifer yn dod â gwasanaethau ychwanegol lle mae angen talu i'w defnyddio yn llawn.

ARFAU AMLGYFRWNG

Unsplash
Pixabay
Canva

Lluniau heb freindal ar gyfer eich gwefan. Dewis arall fel Unsplash. Platfform dylunio i greu asedau marchnata gyda fersiwn am ddim sy'n ddielw. Meddalwedd golygu fideo.

CapCut
VidYard


Meddalwedd recordio cynnwys fideo sy'n ddelfrydol ar gyfer negeseuon personol. Ar gyfer creu delweddau gwybodaeth. Mae'n defnyddio AI i greu hysbysebion byr pan rydych yn bwydo'r testun a'r lluniau.

Napkin
Lumen5

Mae'n defnyddio AI i greu delweddau gwybodaeth, adroddiadau a chyflwyniadau.

PikToChart

Canva



ARFAU CREU CYNNWYS

Answer The Public Arf sy'n dangos pa gwestiynau mae pobl yn chwilio amdanynt sydd yn helpu gydag ysbrydoliaeth marchnata.

Chat GPT

'Chatbot' ar gyfer creu cynnwys ac i gael ysbrydoliaeth.

Buffer

Platfform amserlenni cynnwys cyfryngau cymdeithasol.

Hootsuite

Tebyg i Buffer.

Mailerlite

Arf e gylchlythyr sy'n caniatáu casglu data a rhedeg ymgyrchoedd e-byst.

Mailchimp

Tebyg i Mailerlite.

Helo Blod

Platfform gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnig gwasanaethau cyfieithu misol.

ARFAU GWEITHREDOL

- Hubspot** System sy'n helpu rheoli gwybodaeth a data gan eich cwsmeriaid.
- Calendly** Meddalwedd ar gyfer cynllunio a rhedeg eich calendr.
- Trello** Arf ar gyfer rheoli tasgau, prosiectau a dyddiadau terfyn.
- LinkTree** Ar gyfer creu tudalen cartref sy'n cynnwys dolenni i sawl wahanol le ar un tudalen.


ARFAU YMCHWIL

- Survey Monkey** Ar gyfer holiaduron i gael adborth.
- JotForm** Ar gyfer adeiladu ffurflenni sy'n casglu data.
- Google Trends** Arf dadansoddi data ar gyfer darganfod patrymau ar Google.
- Meta Ad Library** Ar gyfer mewnwelediadau hysbysebion eich cystadleuwyr ar draws plattfformau Meta fel Facebook ac Instagram.

ARFAU GWEFAN

- Google Analytics** Arf dadansoddi i fesur gweithgaredd ar eich gwefan.
- Google Search Console** Arf mewnwelediadau i ddadansoddi sut mae eich gwefan yn perfformio ar beiriannau chwilio.
- Google Fonts** Llyfrgell ffont i'w defnyddio ar wefannau.
- Screaming Frog** Arf SEO ar gyfer mesur perfformiad SEO eich gwefan.
- Uber Suggest** Arf SEO i adnabod y geiriau allweddol mwyaf addas i chi.
- Google Business Profile** Gwasanaeth i wella eich gwelededd ar Google.
- Bing Places for Business** Fersiwn Bing o'r Google Business Profile.
- Page Speed Insights** Arf sy'n asesu cyflymder eich gwefan.
- Compressor** Arf sy'n lleihau ffeiliau delweddau ar gyfer eich gwefan.

Google Fonts



RHESTR TERMAU

AI	ARTIFICIAL INTELLIGENCE
CTA	CALL TO ACTION
GBP	GOOGLE BUSINESS PROFILE
GSPR	GENERAL DATA PROTECTION REGULATION
KB	KB - KILOBYTE
SD	SD - SECURE DIGITAL
SEO	SEO - SEARCH ENGINE OPTIMISATION
SERP	SERP - SEARCH ENGINE RESULTS PAGE
SSL	SSL - SECURE SOCKETS LAYER
UGC	UGC - USER GENERATED CONTENT
URL	URL - UNIFORM RESOURCE LOCATOR

PWY SY'N GYFRIFOL AM Y CANLLAWIAU YMA?

Mae'r **10 cam i feistrolu ymgysylltiad digidol** wedi ei gynllunio gan **Newid Cymru**. Menter i gefnogi sefydliadau yn y drydedd sector wrth iddynt drawsnewid yn ddigidol ydi Newid. Maent yn gweithio mewn cydweithrediad â with **WCVA**, **Cwmpas** a **ProMo-Cymru** ac wedi eu hariannu gan **Lywodraeth Cymru**.

Cwmni marchnata digidol **Oaks Digital** ennillodd y prosiect gan Newid i gynhyrchu'r canllaw yma ynghyd â chyfres o fideos i rannu arfer dda gyda ffocws penodol ar gefnogi sefydliadau yn y drydedd sector yng Nghymru.

AMDANO OAKS DIGITAL

Sefydlwyd **Oaks Digital** yn 2024 gan **Mark Oakman**, arbenigwr marchnata digidol gyda dros 15 mlynedd o brofiad yn y sector. Yn ystod y ddegawd a hanner diwethaf o weithio ym maes marchnata digidol, teimlo yn rhwystredig oedd Mark i weld cymaint o fusnesau yn dioddef o wasanaethau digidol gwael a chyfathrebu gwan. Dysgodd bod rhai hyd yn oed yn derbyn argymhellion oedd yn fuddiol i'r asiantaeth yn unig yn hytrach nag anghenion y cleient.

Ffurfiwyd Oaks Digital ar sail y rhwystredigaeth hon ac i arwain ac arloesi yn y ffordd mae marchnata digidol yn digwydd. Eu prif nod pob tro yw rhoi'r cleient yn gyntaf gyda ffocws ar bobl a pherfformiad.



Cwmni: **Oaks Digital**
Cyfarwyddwr: **Mark Oakman**
Gwefan: **www.oaksdigital.co.uk**
E-bost: **info@oaksdigital.co.uk**
Ffôn: **02921 158426**
LinkedIn: **[@oaksdigitaluk](https://www.linkedin.com/company/oaksdigitaluk)**
Facebook: **[@oaksdigitaluk](https://www.facebook.com/oaksdigitaluk)**
Instagram: **[@oaksdigitaluk](https://www.instagram.com/oaksdigitaluk)**



newID

DIGIDOL AR GYFER Y TRYDYDD SECTOR | DIGITAL FOR THE THIRD SECTOR

10 CAM I FEISTROLI YMGYSYLLTIAD DIGIDOL

GWYBODAETH HANFODOL I'CH HELPU I GYRRAEDD MWY O BOBL AR LEIN


Darparir gan::



ewmpas

promo
cymru

Ariennir gan:



Cefnogir gan:

